

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Bil Cymwysterau Cymru: Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1

Mawrth 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygrych, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565

E-bost: SeneddPPIA@Cynulliad.Cymru

Twitter: [@SeneddPPIA](https://twitter.com/SeneddPPIA)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**Bil Cymwysterau Cymru: Adroddiad
Pwyllgor Cyfnod 1**

Mawrth 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Ei gylch gwaith yw archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion yn ymwneud â gwariant, gweinyddiaeth a pholisi sy'n cwmpasu: addysg, iechyd a lles plant a phobl ifanc Cymru, gan gynnwys eu gofal cymdeithasol.

Ar 22 Ionawr 2014, cytunodd y Cynulliad i newid cylch gwaith y Pwyllgor i gynnwys Addysg Uwch. Bydd y pwnc yn parhau yn rhan o gylch gwaith y Pwyllgor Menter a Busnes hefyd, gyda'r ddau bwyllgor yn ystyried Addysg Uwch o'u safbwyntiau penodol. Enw blaenorol y Pwyllgor oedd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



Ann Jones (Cadeirydd)
Llafur Cymru
Dyffryn Clwyd



Angela Burns
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin Caerfyrddin a De Sir
Benfro



Keith Davies
Llafur Cymru
Llanelli



Suzy Davies
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin De Cymru



John Griffiths
Llafur Cymru
Dwyrain Casnewydd



Bethan Jenkins
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru



Lynne Neagle
Llafur Cymru
Tor-faen



David Rees
Llafur Cymru
Aberafan



Aled Roberts
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gogledd Cymru



Simon Thomas
Plaid Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cynnwys

1. Casgliadau Allweddol ac Argymhellion y Pwyllgor	7
2. Craffu cyn y broses ddeddfu	9
Yr Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru	9
Ymchwiliad y Pwyllgor cyn y broses ddeddfu.....	10
Yr ymagwedd esblygol at Gymwysterau Cymru	10
3. Cyflwyno Bil Cymwysterau Cymru	13
Telerau'r gwaith craffu	13
Ymagwedd y Pwyllgor.....	14
4. Yr egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth	15
Cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol i wneud y Bil	15
Diben ac effaith arfaethedig y Bil	15
Prif Nodau Cymwysterau Cymru.....	16
Cefnogaeth i Sefydlu Cymwysterau Cymru	17
Barn y Pwyllgor	18
5. Gwaith ymarferol Cymwysterau Cymru	20
Lefel annibyniaeth.....	20
Barn y Pwyllgor	21
Craffu ac atebolrwydd	22
Barn y Pwyllgor	24
Ymgysylltu â'r rhanddeiliaid	24
Barn y Pwyllgor	25
6. Y diben y mae'r Bil yn ei osod i Gymwysterau Cymru	26
Y prif nodau	26
Barn y Pwyllgor	26
Materion	27
Barn y Pwyllgor	28

7. Cyfyngu ar gyllido cyrsiau penodol	29
Gofyniad ynglŷn â fersiynau Cymreig o gymwysterau	29
Barn y Pwyllgor	30
Diplomâu Mynediad i Addysg Uwch	30
Barn y Pwyllgor	31
8. Blaenoriaethu cymwysterau	32
Yr angen i flaenoriaethu	32
Sut y bydd blaenoriaethu'n gweithio yn ymarferol	32
Barn y Pwyllgor	33
Blaenoriaethu cymwysterau yn ôl pwysigrwydd hyder y cyhoedd	34
Barn y Pwyllgor	34
9. Cyfyngu cymwysterau	36
Y pryder a fynegwyd gan yr FAB.....	36
Canlyniadau negyddol anfwriadol	37
Barn y Pwyllgor	39
10. Ymagwedd strategol at gymwysterau	41
Ymagwedd strategol at flaenoriaethau a chyfyngu	41
Barn y Pwyllgor	43
Paneli Cynghori ar Gymwysterau Sectorau.....	43
Barn y Pwyllgor	44
Prentisiaethau	44
Barn y Pwyllgor	46
11. Materion ariannol a masnachol	47
Costau sefydlu Cymwysterau Cymru	47
Barn y Pwyllgor	48
Darpariaeth i Gymwysterau Cymru ddarparu gwasanaethau masnachol ...	48
Barn y Pwyllgor	49
Pŵer Cymwysterau Cymru i godi ffioedd.	50
Barn y Pwyllgor	51

12. Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth.....	52
Barn y Pwyllgor	52
Atodiad A - Rhestr tystiolaeth ysgrifenedig.....	53
Atodiad B - Tystion.....	54

1. Casgliadau Allweddol ac Argymhellion y Pwyllgor

Argymhelliad 1. Er bod y Pwyllgor yn llwyr o blaid sefydlu Cymwysterau Cymru, rhaid i Lywodraeth Cymru roi ystyriaeth i'r pryderon cyffredinol a godwyd gan randdeiliaid, a chydweithio'n agos â Phrif Weithredwr Cymwysterau Cymru, cyn i'r corff hwnnw gael ei sefydlu'n ffurfiol, er mwyn sicrhau bod problemau posibl yn cael eu hystyried yn llawn ymlaen llaw.

(Tudalen 19)

Argymhelliad 2. Er bod y Pwyllgor yn fodlon y bydd gan Gymwysterau Cymru y lefel annibyniaeth y mae ei hangen er mwyn ymgymryd â'i rôl yn effeithiol, mae'n credu y dylai'r Gweinidog sicrhau bod cyfeiriad at y ddogfen fframwaith a'r llythyr cylch gwaith blynyddol yn cael ei gynnwys yn y Bil, gan amlinellu'r broses gyffredinol a chynnwys gofyniad bod rhaid i'r dogfennau gael eu cyhoeddi.

(Tudalen 22)

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru roi ymrwymiad i gynnal trafodaeth ar adroddiad blynyddol Cymwysterau Cymru.

(Tudalen 24)

Argymhelliad 4. Dylai'r Gweinidog ystyried cynnwys materion ychwanegol yn y rhestr yn adran 3(2), ynglŷn a hybu cymwysterau galwedigaethol a/neu barch cydradd a meincnodi rhyngwladol.

(Tudalen 28)

Argymhelliad 5. Dylai'r Gweinidog ailystyried geiriad adran 29(3) o'r Bil, a'r cyfeiriad at "fersiwn Gymreig o'r cymhwyster", er mwyn rhoi sicrwydd ac eglurder ynghylch ystyr yr adran hon.

(Tudalen 30)

Argymhelliad 6. Dylai'r Gweinidog ystyried canlyniadau anfwriadol posibl y ddarpariaeth yn adran 29 o'r Bil ar gyfer Diplomâu AHE, neu unrhyw gymhwyster arall y gellid effeithio arno yn yr un modd, ac egluro a fyddan nhw'n cael eu cymeradwyo a'u rheoleiddio gan Gymwysterau Cymru ynteu'n parhau i fod yn gyfrifoldeb i'r QAA a CCAUC.

(Tudalen 31)

Argymhelliad 7. Er bod y Pwyllgor yn fodlon ar y pwerau i osod blaenoriaethau, fel y maen nhw wedi'u cynnwys yn y Bil, mae'r Pwyllgor yn galw ar y Gweinidog i roi ystyriaeth lawn i bryderon a godwyd gan y rhanddeiliaid, ac i gynnwys y pryderon hynny mewn trafodaethau cynnar gyda Phrif Weithredwr Cymwysterau Cymru.

(Tudalen 34)

Argymhelliad 8. Cyn i'r Bil gael ei ddeddfu, dylai'r Gweinidog roi ystyriaeth lawn i'r pryderon a godwyd gan Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu ynghylch cyfyngu cymwysterau blaenoriaethol, yn enwedig felly i'r canlyniadau anfwriadol.

(Tudalen 40)

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu pa effaith ar y farchnad gymwysterau a gâi penderfyniadau i gyfyngu cymwysterau blaenoriaethol, ac y dylai gyflwyno adroddiad ar yr adolygiad hwnnw i'r Cynulliad. (Tudalen 40)

Argymhelliad 10. Dylai'r Gweinidog ystyried a ddylid cynnwys darpariaeth yn y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i fanylion y rhesymeg dros flaenoriaethu a chyfyngu cymwysterau academaidd a galwedigaethol gael eu cynnwys yn adroddiad blynyddol Cymwysterau Cymru. (Tudalen 43)

Argymhelliad 11. Yn sgil deilliannau'r adolygiad "Sicrhau bod y model prentisiaethau'n gweddu i anghenion economi Cymru", dylai'r Gweinidog roi ystyriaeth lawn i'r rôl y dylai Cymwysterau Cymru ei chwarae o ran prentisiaethau. (Tudalen 46)

Argymhelliad 12. Cyn i'r Bil gael ei ddeddfu, rhaid i'r Gweinidog / Cymwysterau Cymru sicrhau bod protocol clir ar gael i leddfu unrhyw wrthdaro buddiannau posibl a allai godi drwy ddarparu gwasanaethau masnachol o dan adran 40 o'r Bil. (Tudalen 50)

Argymhelliad 13. Pe bai Cymwysterau Cymru'n defnyddio'i bwerau i godi ffioedd, dylai fod yn ofynnol iddo gynnal asesiad o effaith codi ffioedd, a ddylai gael ei gynnwys yn ei adroddiad blynyddol. (Tudalen 51)

Argymhelliad 14. Dylai'r Gweinidog sicrhau bod gweithdrefn negyddol y Cynulliad yn cael ei defnyddio ar gyfer Gorchmynion Cychwyn y darperir ar eu cyfer yn adran 55 o'r Bil. (Tudalen 52)

2. Craffu cyn y broses ddeddfu

Yr Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru

1. Ym mis Medi 2011, comisiynwyd adolygiad annibynnol o Gymwysterau i bobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru¹ (yr Adolygiad) i ystyried sut y gallai Llywodraeth Cymru sicrhau “[g]weledigaeth o gymwysterau sy’n cael eu deall a’u gwerthfawrogi ac sy’n bodloni anghenion ein pobl ifanc ac economi Cymru”. Ysgogwyd yr Adolygiad gan nifer o bryderon ynghylch cymhlethdod y system gyfredol ac i ba raddau y mae’n cael ei deall, a pha mor berthnasol, gwerthfawr a chadarn yw rhai cymwysterau.

2. Cyflwynwyd adroddiad yr Adolygiad ym mis Tachwedd 2012, ac un o’r argymhellion allweddol a wnaed oedd:

“Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu un corff (Cymwysterau Cymru) sy’n gyfrifol am reoleiddio a sicrhau ansawdd yr holl gymwysterau nad ydynt ar lefel gradd sydd ar gael yng Nghymru. Dros amser, dylai Cymwysterau Cymru fod yn gyfrifol am ddatblygu a dyfarnu’r rhan fwyaf o’r cymwysterau i ddysgwyr 14 i 16. I ddysgwyr ôl-16, dylai Cymwysterau Cymru ddatblygu a dyfarnu’r rhan fwyaf o’r cymwysterau cyffredinol a dylai hefyd reoleiddio cymwysterau sy’n cael eu darparu gan sefydliadau dyfarnu eraill. Dylai Llywodraeth Cymru a Chymwysterau Cymru gydweithio i lunio’r system gymwysterau genedlaethol ar gyfer Cymru a rhesymoli a chryfhau’r prosesau ar gyfer rheoleiddio a gwella’n barhaus, gan ddysgu oddi wrth y model sydd ar waith yn yr Alban.”²

3. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad, gan gynnig y byddai’n cyflwyno Bil i sefydlu Cymwysterau Cymru, gan gadarnhau mai diben Bil Cymwysterau Cymru fyddai:

- sefydlu un corff i fod yn gyfrifol am reoleiddio a sicrhau ansawdd cymwysterau nad ydynt ar lefel gradd yng Nghymru gan dynnu’r cyfrifoldeb rheoleiddio cyfredol ar gyfer cymwysterau oddi wrth Weinidogion; a
- maes o law, cael un corff i fod yn gyfrifol am ddatblygu a dyfarnu’r rhan fwyaf o gymwysterau cyffredinol yng Nghymru, yn gyfrifol am

¹ [Yr Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru](#)

² Ibid

ddyfarnu'r rhan fwyaf o gymwysterau i bobl ifanc 14 i 16 oed yn ogystal â chymwysterau Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru.

Ymchwiliad y Pwyllgor cyn y broses ddeddfu

4. Ar 29 Ionawr 2014, cafodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg friffiad technegol gan swyddogion i Lywodraeth Cymru ynghylch y cynnig deddfwriaethol i sefydlu Cymwysterau Cymru. Drwy gyfrwng y briffiad technegol, cafodd y Pwyllgor wybod yn gynnar yr hyn roedd y Bil yn debyg o'i gynnwys ond codwyd cwestiynau hefyd mewn nifer o feysydd, gan gynnwys sut roedd y model arfaethedig yn cymharu â model yr Alban – yr oedd Llywodraeth Cymru wedi seilio llawer o'r manylion yn ei chynigion arno.

5. Cyn i'r Bil gael ei gyflwyno, felly, ymgwymerodd y Pwyllgor ag ymchwiliad byr a phendant i graffu ar y cynigion a oedd ar y gweill gan Lywodraeth Cymru yn y cyfnod hwnnw cyn y broses ddeddfu. Penderfynodd y Pwyllgor ar gylch gwaith, a chytuno y byddai'n edrych ar fodolau mewn manau eraill, gan gynnwys ymweliadau i gasglu ffeithiau â Quality and Qualifications Ireland (QQI)³ ac Awdurdod Cymwysterau'r Alban (SQA)⁴ i ystyried sut roedd y systemau cymwysterau'n gweithio yn y gwledydd hynny.

Yr ymagwedd esblygol at Gymwysterau Cymru

6. Cafodd gweledigaeth gychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymwysterau Cymru ei nodi mewn dau gyfnod. Sefydlu Cymwysterau Cymru a throsglwyddo swyddogaethau rheoleiddio iddo oddi wrth Lywodraeth Cymru fyddai'r cyfnod cyntaf. Yr ail gyfnod, maes o law, fyddai ehangu cylch gwaith Cymwysterau Cymru i gynnwys swyddogaethau dyfarnu.

7. Yr awgrym oedd mai "Bil Cymwysterau Cymru" fyddai'r ddeddfwriaeth sylfaenol a fyddai'n caniatáu ar gyfer cyfnod cyntaf sefydlu'r corff newydd â swyddogaethau rheoleiddio, ac wedyn ychwanegu'r swyddogaethau dyfarnu at ei gylch gwaith. Er mai "maes o law" y câi'r ail gyfnod ei ddeddfu, dealltwriaeth y Pwyllgor oedd y byddai'r Bil arfaethedig y pryd hwnnw yn cynnwys darpariaethau ynghylch y ddau gyfnod.

8. Roedd y Bil yn cael ei gyflwyno ar adeg o gryn adolygu a newid yn y sector, a oedd yn debyg o greu effaith ar y modd y byddai Cymwysterau Cymru, cyrff dyfarnu, a darparwyr addysg uwch yn gweithredu yn y dyfodol agos ac yn y tymor hirach. Roedd hyn yn cynnwys yr adolygiad o'r cwricwlwm ac asesu, y cynhaliwyd ei ail gyfnod yn annibynnol gan yr Athro Graham

³ Ymweliad y Pwyllgor â'r QQI: dydd Iau 1 Mai 2014

⁴ Ymweliad y Pwyllgor â'r SQA: dydd Iau 1 Mai 2014

Donaldson, a'i gyhoeddi ar 25 Chwefror 2015.⁵ Mae deilliannau'r adolygiad hwnnw'n debyg o gael dylanwad arwyddocaol ar waith Cymwysterau Cymru. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth a oedd yn pwysleisio mor bwysig oedd cysoni diwygiadau cymwysterau a diwygiadau'r cwricwlwm, a dadleuon bod rhaid i'r ddau gael eu datblygu mewn cydweithrediad digonol.

9. Barn glir y Pwyllgor oedd y byddai'n fwy addas ystyried cynnwys darpariaethau yn y Bil ar gyfer cylch gwaith Cymwysterau Cymru at y dyfodol o ran swyddogaethau dyfarnu ar ôl cael deilliannau'r adolygiad o'r cwricwlwm ac asesu a oedd ar ei hanner ac ar ôl rhagor o waith ar sut y byddai'r broses ddyfarnu'n gweithio. Doedd y Pwyllgor ddim wedi'i argyhoeddi bod yna ddigon o eglurder o ran sut y byddai'r model comisiynu arfaethedig yn gweithio'n ymarferol nac o ran cyfrifoldebau'r gwahanol sefydliadau o dan sylw.

10. Doedd y Pwyllgor ddim yn credu y byddai gan Lywodraeth Cymru ddigon o amser i ystyried y materion ynghylch cylch gwaith ehangach Cymwysterau Cymru yn llawn, ac y byddai angen dibynnu'n fwy ar is-ddeddfwriaeth. Roedd y Pwyllgor yn gofidio o ran sut y gallai'r Bil ymdrin ag ymagwedd esblygol o'r fath at gylich gwaith a chyfrifoldebau Cymwysterau Cymru a gwneud darpariaeth ar eu cyfer.

11. Roedd yn hollbwysig bod proses sefydlu Cymwysterau Cymru yn cael ei rheoli yn y modd mwyaf effeithiol, a fyddai'n arwain at sefydliad a fyddai'n gadarn ac a fyddai'n meddu ar ddiben clir a phendant.

12. Roedd y Pwyllgor yn credu mai'r ffordd orau i sicrhau hynny fyddai petai Llywodraeth Cymru'n cyflwyno Bil i ddechrau i sefydlu Cymwysterau Cymru fel corff rheoleiddio'n unig. Dylai ystod lawn rôl a swyddogaethau Cymwysterau Cymru, gan gynnwys ei swyddogaethau fel corff dyfarnu, gael eu cyflwyno mewn Bil yn y dyfodol ar ôl i'r adolygiadau gael eu cwblhau, ar ôl i ystyriaeth lawn gael ei rhoi i'r holl faterion perthnasol, ac ar ôl sicrhau digon o eglurder ynghylch sut y byddai'r broses ddyfarnu'n gweithio'n ymarferol.

13. Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ar ei waith craffu ar y Bil Cymwysterau Cymru arfaethedig cyn y broses ddeddfu⁶ ym mis Gorffennaf 2014. Gwnaeth yr adroddiad argymhelliad clir y dylai'r Bil gael ei ddrafftio i

⁵ [Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru](#)

⁶ [Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Craffu cyn y broses ddeddfu ar y Bil Cymwysterau Cymru arfaethedig](#)

sefydlu Cymwysterau Cymru fel corff rheoleiddio yn unig. Derbyniwyd yr argymhelliad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau a gadarnhaodd hyn:

“...I remain convinced that a qualifications body for Wales, which is independent of Government and which both awards and regulates qualifications, should remain our long-term national ambition. The Welsh Government will, in the first instance, bring forward legislation to establish Qualifications Wales as a national body to regulate awarding bodies and to quality assure qualifications. Future legislation would be necessary to confer awarding powers on Qualifications Wales.”

3. Cyflwyno Bil Cymwysterau Cymru

14. Ar 1 Rhagfyr 2014, cyflwynodd Huw Lewis AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Fil Cymwysterau Cymru⁷ (y Bil) a'r Memorandwm Esboniadol. Gwnaeth y Gweinidog ddatganiad llafar yn y cyfarfod llawn⁸ ar 2 Rhagfyr 2014.⁹

15. Yn ei gyfarfod ar 18 Tachwedd, cytunodd Pwyllgor Busnes y Cynulliad Cenedlaethol y byddai'n cyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ("y Pwyllgor") er mwyn i'r egwyddorion cyffredinol gael eu hystyried (Cyfnod 1), yn unol â Rheol Sefydlog 26.9. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad erbyn 13 Mawrth 2015.

Telerau'r gwaith craffu

16. Cytunodd y Pwyllgor ar y fframwaith a ganlyn ar gyfer craffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil:

17. Ystyried:

- egwyddorion cyffredinol Bil Cymwysterau Cymru ac a oes angen deddfu er mwyn cyflawni'r amcanion polisi a nodwyd yn y Bil;
- prif ddarpariaethau'r Bil ac a ydynt yn briodol i gyflawni'r amcanion a nodwyd ynddo, gan gynnwys:
 - a yw Llywodraeth Cymru wedi nodi'r pedwar prif gyfyngiad yn gywir ar gyfer y trefniant cyfredol ac a fydd y ddau brif nod y mae'r Bil yn eu pennu ar gyfer Cymwysterau Cymru, yn ogystal â'r wyth mater y mae'n rhaid iddo eu hystyried wrth gyflawni ei swyddogaethau, yn mynd i'r afael yn effeithiol â'r cyfyngiadau hyn; ac
 - addasrwydd y cynnig ar gyfer penderfynu ar 'gymwysterau blaenoriaethol' ac, o fewn y rhain, 'cymwysterau blaenoriaethol cyfyngedig', lle gall Cymwysterau Cymru gyfyngu ar y mathau o gymwysterau sydd ar gael i'w cyllido'n gyhoeddus yng Nghymru;
- unrhyw rwystrau posibl i roi'r prif ddarpariaethau ar waith ac a yw'r Bil yn eu hystyried;
- goblygiadau ariannol y Bil, (fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol (sef yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, sy'n amcangyfrif y costau a'r buddion o roi'r Bil ar waith)); a

⁷ [Bil Cymwysterau Cymru](#)

⁸ Sef un o gyfarfodydd llawn Cynulliad Cenedlaethol Cymru

⁹ Y Cyfarfod Llawn, 2 Rhagfyr 2014, [Cofnod y Trafodion](#)

- phriodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y nodir ym Mhennod 5 o Ran 1 o'r Memorandwm Esboniadol, sy'n cynnwys tabl sy'n rhoi crynodeb o bwerau Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth).

Ymagwedd y Pwyllgor

18. Cyhoeddodd y Pwyllgor ymgynghoriad a gwahodd rhanddeiliaid allweddol i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i fwydo gwaith y Pwyllgor. Ceir rhestr o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn Atodiad 1.
19. Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan nifer o dystion. Ceir y rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar yn Atodiad 2.
20. Mae'r adroddiad a ganlyn yn cyflwyno'r casgliadau a'r argymhellion y mae'r Pwyllgor wedi dod iddyn nhw ar sail y dystiolaeth a ddaeth i law yn ystod ei waith.
21. Nid yw'r adroddiad yn cynnig sylwadau ar bob un o adrannau'r Bil. Pan na cheir sylwadau ar adran benodol, gellir rhagdybio bod y Pwyllgor yn fodlon ar y darpariaethau fel y maen nhw wedi'u drafftio yn y Bil.
22. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ei waith craffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

4. Yr egwyddorion cyffredinol a'r angen am deddfwriaeth

Cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol i wneud y Bil

23. Mae'r Memorandwm Esboniadol¹⁰ yn dweud:

“Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud darpariaeth ym Mil Cymwysterau Cymru o dan Ran 4 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006"). Mae'r darpariaethau perthnasol yn Neddf 2006 yn cael eu nodi yn adran 108 ac Atodlen 7. Mae paragraff 5 yn Rhan 1 o Atodlen 7 yn nodi'r pynciau canlynol y caiff y Cynulliad deddfu arnynt, a hynny o dan y pennawd 'Education and Training'...”

24. Cyhoeddodd y Llywydd ddatganiad ar 1 Rhagfyr 2014,¹¹ yn nodi y byddai'r Bil, yn ei barn hi, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Diben ac effaith arfaethedig y Bil

25. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer sefydlu Cymwysterau Cymru fel y corff rheoleiddio annibynnol a fydd yn gyfrifol am gydnabod cyrff dyfarnu ac adolygu a chymeradwyo cymwysterau heblaw graddau yng Nghymru. Bydd Cymwysterau Cymru hefyd, ynghyd â Gweinidogion Cymru, yn gyfrifol am baratoi rhestr o gymwysterau blaenoriaethol, a ddynodir felly oherwydd arwyddocâd y cymhwyster, gan roi sylw i anghenion dysgwyr a chyflogwyr yng Nghymru.

26. Yn ychwanegol, mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r Bil fel cyfle i wneud gwelliannau drwy gyfrwng diwygiadau. Bwriad y Llywodraeth, drwy sefydlu Cymwysterau Cymru, yw cryfhau'r oruchwyliaeth dros gymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru. Mae'r Gweinidog, yn y Memorandwm Esboniadol, yn dweud mai dyma un o'r manteision:

“Gall deddfwriaeth sylfaenol roi pwerau i Gymwysterau Cymru sy'n mynd y tu hwnt i'r rheini sydd gan Weinidogion Cymru ar hyn o bryd. Bydd y rhain yn cynnwys y pŵer i gomisiynu a rheoli'r rhan fwyaf o gymwysterau cyffredinol yng Nghymru; gan ei gwneud yn bosibl i Gymru symud oddi wrth y dull o ddarparu cymwysterau ar sail y farchnad a thuag at un gyfres o gymwysterau i Gymru. Bydd hyn, yn

¹⁰ [Memorandwm Esboniadol](#) , paragraff 2

¹¹ [Datganiad y Llywydd](#)

ei dro, yn symleiddio'r system gymwysterau ac yn helpu i gryfhau gwaith rheoleiddio.”¹²

27. Bwriedir i'r Bil ymdrin â'r pedwar prif gyfyngiad yn y system gyfredol, a nodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu yn y Memorandwm Esboniadol fel hyn:

- y ffaith nad oes yna un sefydliad penodol sy'n ymroddedig i sicrhau effeithiolrwydd cymwysterau a'r system gymwysterau;
- nad oes unrhyw bwerau i roi blaenoriaeth i rai cymwysterau a thrwy hynny sicrhau bod modd canolbwyntio ar y cymwysterau y mae angen eu rheoleiddio fwyaf - sy'n golygu bod yna nifer fawr o gymwysterau yn cael eu rheoleiddio ond bod yr adnoddau yn brin i sicrhau bod y gwaith yn effeithiol;
- nad oes unrhyw bwerau i ddewis un darparwr ar gyfer cymhwyster penodol i sicrhau bod dysgwyr ledled Cymru yn cymryd yr un cymhwyster;
- nad oes digon o gapasiti i hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu cymwysterau yn strategol o fewn y trefniadau cyfredol - gan greu risg na chaiff cymwysterau Cymru eu parchu, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, gymaint â chymwysterau cenhedloedd eraill.

28. Nid yw'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n rhoi swyddogaethau na phwerau i Gymwysterau Cymru fel corff dyfarnu. Mae'r Pwyllgor yn croesawu hyn yn fawr iawn, o gofio'r argymhelliad a wnaed yn y gwaith craffu cyn y broses deddfu, ac ymroddiad y Gweinidog y câi unrhyw bwerau ynglŷn â swyddogaethau dyfarnu o'r fath eu cynnwys mewn deddfwriaeth yn y dyfodol.

29. Er hynny, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru adolygu ei berthynas â chyrff dyfarnu'n gyson. Mae'r Gweinidog wedi dweud yn y Memorandwm Esboniadol: “Y disgwyl yw y bydd y sefydliad maes o law yn gyfrifol am gynnal adolygiad ffurfiol i roi sylw i'r modd y gallai ddod yn gorff dyfarnu ei hunan”.¹³

Prif Nodau Cymwysterau Cymru

30. Mae'r Bil yn rhoi'r prif nodau a ganlyn i Gymwysterau Cymru, a rhaid iddo gydymffurfio â'r rhain wrth arfer ei swyddogaethau:

¹² [Y Memorandwm Esboniadol](#), paragraffau 186 a 187

¹³ [Y Memorandwm Esboniadol](#), paragraff 68

- Sicrhau bod cymwysterau, a system gymwysterau Cymru, yn effeithiol i ddiwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru; a
- Hybu hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn system gymwysterau Cymru.

31. Mae'r Bil hefyd yn rhagnodi rhestr, nad yw'n gynhwysfawr, o wyth mater y mae'n rhaid i Gymwysterau Cymru roi sylw iddyn nhw wrth geisio cyflawni'r ddau brif nod hyn. Dyma'r wyth mater:

- a) hyrwyddo twf cynaliadwy o fewn economi Cymru;
- b) hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, gan gynnwys drwy gynnig trefniadau asesu yn y Gymraeg, a chymwysterau sy'n hyrwyddo neu'n hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg mewn ffyrdd eraill;
- c) amrywiaeth a natur y cymwysterau sydd ar gael, a'u trefniadau asesu;
- d) gofynion rhesymol cyflogwyr, sefydliadau addysg uwch a phroffesiynau o ran addysg a hyfforddiant (gan gynnwys safonau cymhwysedd ymarferol gofynnol);
- e) a yw'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth y mae gofyn i ddysgwyr eu dangos wrth benderfynu a ddylid dyfarnu cymhwyster iddo yn adlewyrchu'r wybodaeth a'r arferion gorau cyfredol;
- f) a yw'r cymwysterau yn arwyddo lefel cyrhaeddiad sy'n gyson â'r cymwysterau y mae Cymwysterau Cymru yn eu hystyried yn rhai cyfatebol, p'un a gânt eu dyfarnu yng Nghymru neu yn rhywle arall;
- g) a yw'r cymwysterau yn cael eu darparu mewn ffordd effeithlon gan sicrhau gwerth am arian;
- h) gwahanol rolau a chyfrifoldebau pob un o'r personau a ganlyn p ran system gymwysterau Cymru (gan gynnwys y cydweithredu rhwng yr unigolion hynny, a'u heffeithiolrwydd yn cyflawni eu rolau)—
 - (i) cyrff dyfarnu, darparwyr dysgu, Cymwysterau Cymru a Gweinidogion Cymru;
 - (ii) unrhyw bersonau eraill sy'n cyflawni swyddogaethau y mae Cymwysterau Cymru yn eu hystyried yn berthnasol i ddiben system gymwysterau Cymru.

Cefnogaeth i Sefydlu Cymwysterau Cymru

32. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud yn y Memorandwm Esboniadol y byddai angen newid a diwygio arwyddocaol ar ddeddfwriaeth sylfaenol er

mwyn sefydlu'r corff annibynnol. Yn y dystiolaeth ysgrifenedig a'r dystiolaeth lafar a gyflwynwyd i'r Pwyllgor, cafwyd cefnogaeth unfrydol bron i'r egwyddor o drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros reoleiddio cymwysterau oddi wrth y llywodraeth a sefydlu corff annibynnol penodol at y diben hwnnw, fel y nodir yn y Bil.

33. Er hynny, mae'r dystiolaeth hefyd wedi amlygu pryderon a risgiau posibl sy'n gysylltiedig â sefydlu Cymwysterau Cymru, a chael system gymwysterau yng Nghymru sy'n rhy bell ar wahân. Roedd y materion a'r pryderon allweddol a nodwyd gan y rhai a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor yn cynnwys:

- materion ymarferol sut y byddai Cymwysterau Cymru'n gweithio;
- yr hyn sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau bod Cymwysterau Cymru yn ateb ei ddiben yn llwyddiannus;
- eglurder y darpariaethau yn y Bil, yn enwedig o ran adran 29(3) ynghylch "fersiynau Cymreig" o gymwysterau;
- manteision ac anfanteision y trefniadau newydd ynghylch gosod blaenoriaethau a chyfyngiadau ynglŷn â chymwysterau;
- a oedd y Bil yn hwyluso ymagwedd fwy strategol at gymwysterau; a hefyd
- y materion ariannol a masnachol ynglŷn â'r system newydd.

Barn y Pwyllgor

34. Bydd Bil Cymwysterau Cymru yn darparu ar gyfer sefydlu corff newydd, yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, a fydd yn gyfrifol am reoleiddio system gymwysterau Cymru. Bydd y Bil hefyd yn rhoi pwerau ychwanegol i'r corff hwnnw i'w alluogi i gryfhau'r system reoleiddio.

35. Mae'r Pwyllgor yn unfryd yn ei farn bod sefydlu Cymwysterau Cymru yn gam cadarnhaol ymlaen, ac mae'n llwyr o blaid yr ymagwedd sydd wedi'i harddel yn y Bil.

36. Mae'r Bil yn cynnwys rhestr o faterion y mae'n rhaid i Gymwysterau Cymru roi sylw iddyn nhw wrth gyflawni ei swyddogaethau, bob un ohonyn nhw'n anelu at sicrhau gwelliant yn y system reoleiddio. Er hynny, mae'r Pwyllgor yn credu y bydd sefydlu Cymwysterau Cymru ei hun yn creu effaith fawr tuag at gyflawni'r gwelliannau / newidiadau arfaethedig.

37. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod y pryderon a godwyd gan y rhanddeiliaid. Er ein bod yn edrych yn fanylach ar y rhain drwy'r adroddiad hwn i gyd, mae'r Pwyllgor yn credu bod rhaid i Lywodraeth Cymru roi ystyriaeth i'r pryderon cyffredinol hyn, a chydweithio'n agos â Phrif Weithredwr Cymwysterau Cymru, cyn i'r corff hwnnw gael ei sefydlu'n ffurfiol, er mwyn sicrhau bod problemau posibl yn cael eu hystyried yn llawn ymlaen llaw.

Argymhelliad: Er bod y Pwyllgor yn llwyr o blaid sefydlu Cymwysterau Cymru, rhaid i Lywodraeth Cymru roi ystyriaeth i'r pryderon cyffredinol a godwyd gan rhanddeiliaid, a chydweithio'n agos â Phrif Weithredwr Cymwysterau Cymru, cyn i'r corff hwnnw gael ei sefydlu'n ffurfiol, er mwyn sicrhau bod problemau posibl yn cael eu hystyried yn llawn ymlaen llaw.

5. Gwaith ymarferol Cymwysterau Cymru

Lefel annibyniaeth

38. Bydd Cymwysterau Cymru'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru yn y modd y mae'n gweithio tuag at gyflawni ei brif nodau a'i swyddogaethau cymwysterau, a bydd yn cyflwyno adroddiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad).

39. Gan y bydd Cymwysterau Cymru'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru bydd ganddo ddogfen "fframwaith" a fydd yn amlinellu ei gyfrifoldebau i Lywodraeth Cymru (yn enwedig ei gyfrifoldebau ariannol). Daw'r cyfrifoldebau hynny o dan oruchwyliaeth uned noddi yn Llywodraeth Cymru.

40. Mynegodd y ddau undeb sy'n cynrychioli penaethiaid ysgolion ac arweinwyr ysgolion/collegau, sef Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) a Chymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) amheuan ynghylch gwir lefel annibyniaeth Cymwysterau Cymru. Soniwyd yn benodol am bwerau Gweinidogion Cymru i wneud penodiadau i'r corff newydd ac i roi llythyr cylch gwaith blynyddol. Codwyd pryderon hefyd fod darpariaethau'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r broses o bennu blaenoriaethau cymwysterau gael ei chyflawni ar y cyd rhwng Cymwysterau Cymru a Gweinidogion Cymru.

41. Roedd yr NAHT yn dal yn gofidio "that the new body will not be independent of Government" ac ym marn yr ASCL, "it is unclear how the independence of this new body will be maintained under the arrangements described in the Bill".

42. Roedd pwysigrwydd annibyniaeth wirioneddol i Gymwysterau Cymru hefyd yn fater a godwyd mewn sawl cyflwyniad ysgrifenedig. Pwysleisiodd Ffederasiwn y Busnesau Bach (FSB) fod rhaid i'r rheoleiddiwr fod yn gwbl annibynnol ar Lywodraeth Cymru ac y dylid sicrhau llinellau atebolrwydd ffurfiol cryf ac ymrwymiad i waith craffu cyson gan un o bwyllgorau'r Cynulliad.

43. Pwysleisiodd Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr (ATL) mor bwysig oedd bod yn agored ac yn dryloyw, a mynegi pryder hefyd y gallai'r uned noddi yn Llywodraeth Cymru ymyrryd ag annibyniaeth Cymwysterau Cymru.

44. Mae'r Gweinidog yn esbonio yn y Memorandwm Esboniadol¹⁴ y byddai'r uned oddi yn "goruchwyllo" cyfrifoldebau Cymwysterau Cymru ac y câi'r atebolrwydd ariannol ei ddarparu drwy gyfrwng dogfen "fframwaith". Er hynny, mae Llywodraeth Cymru'n dweud na fydd deialog gyson ar bolisi yn tanseilio annibyniaeth Cymwysterau Cymru.

45. Yn ystod gwaith craffu'r Pwyllgor cyn y broses ddeddfu, edrychwyd ar gwestiwn annibyniaeth ac atebolrwydd gyda Quality and Qualifications Ireland (QQI) a oedd yn pwysleisio mai'r hyn a oedd yn hanfodol ar gyfer system lwyddiannus oedd bod gan y rheoleiddiwr annibyniaeth wrth weithredu. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

"What the Bill, as drafted, seeks to do is strike the best possible balance that we can find between that operational independence and the need for accountability."¹⁵

46. Mewn ymateb i bryderon y gallai'r uned noddi gael ei gweld fel pe bai'n tanseilio annibyniaeth Cymwysterau Cymru, dywedodd y Gweinidog:

"In terms of the sponsor unit.... It would be a small administration team—a conduit, if you like—for communication between the Welsh Government and the new body, the primary purpose of which would be to make sure we have a good constant working relationship, particularly in relation to curriculum development."¹⁶

Barn y Pwyllgor

47. Yn sgil y casgliadau a gafwyd yn ystod y gwaith craffu cyn y broses ddeddfu, prif awydd y Pwyllgor oedd sicrhau y byddai gan Gymwysterau Cymru annibyniaeth weithredol ar Lywodraeth Cymru. Er bod y Pwyllgor yn nodi'r pryderon a gododd y rhanddeiliaid, mae'n credu bod y Bil yn rhoi i Gymwysterau Cymru y lefel o annibyniaeth sy'n angenrheidiol er mwyn iddo ymgymryd â'i rôl yn effeithiol.

48. Mae'r Pwyllgor yn nodi na fydd Llywodraeth Cymru'n penderfynu blaenoriaethau blynyddol Cymwysterau Cymru na'i gynllun busnes, ond y bydd yna faterion polisi y bydd Llywodraeth Cymru'n dymuno tynnu sylw Cymwysterau Cymru atyn nhw, neu weithgareddau ychwanegol y bydd yn dymuno gofyn i Gymwysterau Cymru eu cyflawni ar ei rhan. Nid yw'r

¹⁴ [Y Memorandwm Esboniadol](#), paragraff 59

¹⁵ Tystiolaeth lafar, 5 Chwefror 2015, [Cofnod y Trafodion](#)

¹⁶ Ibid

Pwyllgor yn credu y bydd hyn yn amharu ar annibyniaeth weithredol Cymwysterau Cymru.

49. Yn yr un modd, mae'r Pwyllgor yn nodi'r datganiad yn y Memorandwm Esboniadol¹⁷ y bydd y llythyr "cylch gwaith" blynyddol yn nodi unrhyw feysydd ffocws neu weithgareddau penodol a fyddai'n cydategu gweithgareddau craidd Cymwysterau Cymru, yn ogystal â nodi'r grant blynyddol sydd i'w ddarparu. Unwaith eto, mae'r Pwyllgor yn credu na fydd hyn yn amharu ar annibyniaeth weithredol y corff.

50. Mae'r Pwyllgor yn fodlon hefyd ar rôl arfaethedig yr uned noddi, fel y'i hamlinellwyd gan y Gweinidog, ac na fyddai'r uned yn ymyrryd ag annibyniaeth Cymwysterau Cymru, fel yr awgrymwyd.

51. Er hynny, nid yw'r Pwyllgor yn eglur o ran y broses ar gyfer cytuno ar y ddogfen fframwaith a'r llythyr cylch gwaith y cyfeiriwyd atyn nhw. Er bod y rhain yn ddulliau pendant sydd wedi'u cynnig gan y Gweinidog wrth symud tuag at sefydlu'r corff annibynnol, does dim darpariaeth ar wyneb y Bil ynghylch y broses ar gyfer cytuno ar y naill ddogfen na'r llall.

52. Gan hynny, mae'r Pwyllgor yn credu y dylai'r Gweinidog sicrhau bod cyfeiriad at y ddogfen fframwaith a'r llythyr cylch gwaith blynyddol yn cael ei gynnwys yn y Bil, gan amlinellu'r broses gyffredinol a chynnwys gofyniad bod rhaid i'r dogfennau gael eu cyhoeddi.

Argymhelliad: Er bod y Pwyllgor yn fodlon y bydd gan Gymwysterau Cymru y lefel annibyniaeth y mae ei hangen er mwyn ymgymryd â'i rôl yn effeithiol, mae'n credu y dylai'r Gweinidog sicrhau bod cyfeiriad at y ddogfen fframwaith a'r llythyr cylch gwaith blynyddol yn cael ei gynnwys yn y Bil, gan amlinellu'r broses gyffredinol a chynnwys gofyniad bod rhaid i'r dogfennau gael eu cyhoeddi.

Craffu ac atebolrwydd

53. Awgrymodd yr NAHT a'r ASCL y byddai angen gwaith craffu cryfach gan y Cynulliad er mwyn cydbwysu'r dylanwad yr oedden nhw'n credu y gallai Llywodraeth Cymru ei arddel dros Gymwysterau Cymru.

54. Cyfeiriodd Robin Hughes, Ysgrifennydd yr ASCL, at y ffaith mai dim ond cael ei osod gerbron y Cynulliad a gâi'r adroddiad blynyddol, gan ofyn a fyddai sicrwydd yn cael ei roi y ceid cyfle i edrych yn fanwl ar y corff newydd.

¹⁷ [Y Memorandwm Esboniadol](#) , paragraff 62

55. Mynegodd y Dr Chris Howard, Cyfarwyddwr Dros Dro NAHT Cymru, bryderon y gellid cael adegau pan na fyddai Cymwysterau Cymru, yn rhinwedd ei swyddogaeth fel corff annibynnol, yn cyd-fynd â'r Gweinidog, gan awgrymu y byddai'r Bil ar dir mwy cadarn pe bai yna gyfle i'r Cynulliad glywed gan Gymwysterau Cymru dwywaith neu dair yn ystod y flwyddyn.

56. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru osod copi o'i adroddiad blynyddol gerbron y Cynulliad a chyhoeddi'r adroddiad. Er hynny, nid yw'r Bil yn gwneud darpariaeth sy'n manylu ar yr hyn a fyddai'n digwydd ar ôl i adroddiad Cymwysterau Cymru gael ei osod neu a fyddai'n destun trafod i'r Aelodau neu beidio.

57. Nid yw'r ffaith bod dogfen yn cael ei gosod ynddi ei hun yn ei gwneud yn ofynnol iddi gael ei thrafod gan y Cynulliad. Er hynny, mae'r Memorandwm Esboniadol yn awgrymu y byddai'r Aelodau'n craffu ar yr adroddiad blynyddol, gan ddweud "Bydd Cymwysterau Cymru yn gorfod ateb i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, naill ai mewn sesiwn lawn neu mewn Pwyllgor".¹⁸

58. Pan holwyd ef ynglŷn â hyn gan y Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog:

"Well, this, of course, would be a matter for the Assembly itself, or for committees and Assembly Members to decide. I would envisage that we would have an analogous process to that which Estyn, for instance, will undergo every year."¹⁹

59. Dywedodd y Gweinidog hefyd yn ei dystiolaeth fod y Bil wedi'i lunio'n fwriadol fel hyn er mwyn caniatáu i'r Cynulliad ddwyn y corff newydd i gyfrif. Mewn sector lle gallai datblygiadau polisi newid yn sydyn, awgrymodd (er enghraifft) fod angen nid yn unig gyfyngu ar allu'r Cynulliad i oruchwylio'r corff newydd i'r adroddiad blynyddol. Fe ellid cael materion beunyddiol lle byddai angen i bwyllgor neu'r Cynulliad ehangach ddwyn Cymwysterau Cymru i gyfrif.

60. Wrth ystyried y darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud ag Adroddiad Blynyddol Cymwysterau Cymru, mae'r Pwyllgor wedi edrych ar ddeddfwriaeth ddiweddar ynghylch yr adroddiadau blynyddol a lunnir gan Brif Arolygydd Estyn a'r Comisiynydd Plant. Yn y ddau achos hyn, y cyfan sy'n ofynnol yn y ddeddfwriaeth yw bod eu hadroddiadau blynyddol yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad. Er hynny, o ran y ddau, mae'r Pwyllgor cyfrifol yn cynnal sesiwn

¹⁸ [Y Memorandwm Esboniadol](#), paragraff 322

¹⁹ Tystiolaeth lafar, 5 Chwefror 2015, [Cofnod y Trafodion](#)

graffu flynyddol, ac mae'r Llywodraeth yn cynnal dadl bob blwyddyn, ar eu hadroddiad blynyddol.

Barn y Pwyllgor

61. Mae darpariaethau'r Bil sy'n ymwneud ag adroddiad blynyddol Cymwysterau Cymru yn debyg i'r trefniadau yn y ddeddfwriaeth ynglŷn ag adroddiadau blynyddol cyrff tebyg, megis Comisiynydd Plant Cymru ac Estyn. Mae'r Pwyllgor yn fodlon felly fod darpariaethau'r Bil yn ddigonol yn hyn o beth.

62. Mae'r Pwyllgor yn credu y byddai'r Bil yn rhy gyfyngol pe bai'n cynnwys darpariaeth yn pennu sut neu ba bryd y dylid dod â Chymwysterau Cymru gerbron y Cynulliad at ddibenion gwaith craffu. Er hynny, mae'r Pwyllgor hefyd yn credu y dylai Llywodraeth Cymru roi ymrwymiad i gynnal dadl ar adroddiad blynyddol Cymwysterau Cymru, yn yr un modd ag yn achos adroddiadau blynyddol cyrff tebyg.

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru roi ymrwymiad i gynnal trafodaeth ar adroddiad blynyddol Cymwysterau Cymru.

Ymgysylltu â'r rhanddeiliaid

63. Mae adran 42(3) o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru gyhoeddi datganiad yn nodi o dan ba amgylchiadau y mae'n bwriadu ymgynghori ac ym mha fodd y mae'n bwriadu ymgynghori felly.

64. Dadleuai nifer o'r ymatebwyr i ymgynghoriad ysgrifenedig y Pwyllgor, gan gynnwys yr NUT, yr FSB, yr NUS, yr ATL, ac UCAC, y dylai'r Bil gynnwys mwy o fanylion am sut y disgwylir i Gymwysterau Cymru ymgysylltu ac ymgynghori â'r rhanddeiliaid. Dadleuai'r NUT yn benodol yr hoffai weld y Bil yn pennu rhestr fanwl o'r rhanddeiliaid y byddai'n rhaid i Gymwysterau Cymru ymgynghori â nhw, oherwydd "leaving this as a vague list as a vague list to be determined could result in accusations that the body is not engaging efficiently".²⁰

65. Galwodd UCAC hefyd am drefniadau clir ynghylch cyfathrebu â'r rhanddeiliaid, a byddai'n well gan yr ATL pe bai'r "gobaith" ynglŷn ag ymgysylltu a geir yn y Memorandwm Esboniadol²¹ yn troi'n rhywbeth mwy cadarn yn y Bil.

²⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, [NUT Cymru: QW15](#)

²¹ [Y Memorandwm Esboniadol](#), paragraff 101

66. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y byddai'n ofynnol i Gymwysterau Cymru siarad yn gyson â phrifysgolion ledled y Deyrnas Unedig a ledled y byd; yn yr un modd, â chyflogwyr a chyrff proffesiynol.

67. Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd y byddai'n rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys manylion am sut roedd Gymwysterau Cymru wedi ymgysylltu â'i randdeiliaid mewn gwirionedd. Dywedodd y Gweinidog y byddai hynny'n rhan ddisgwyliedig o waith beunyddiol Gymwysterau Cymru.

Barn y Pwyllgor

68. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru gyhoeddi datganiad yn nodi o dan ba amgylchiadau y byddai'n bwriadu ymgynghori ac ym mha fodd y byddai'n ymgynghori. Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru gynnwys yn ei adroddiad blynyddol fanylion am sut y mae wedi cynnwys y rhanddeiliaid wrth iddo arfer ei swyddogaethau.

69. Mae'r Pwyllgor felly yn nodi'r pryderon a godwyd, ond mae'n credu bod y Bil yn cynnig digon o ddiogelwch i sicrhau y byddai Gymwysterau Cymru'n ymgysylltu ac yn ymgynghori'n effeithiol â'r rhanddeiliaid.

6. Y diben y mae'r Bil yn ei osod i Gymwysterau Cymru

70. Prif ddiben y Bil yw mynd i'r afael â'r pedwar prif gyfyngiad yn y system gyfredol sydd wedi'u nodi gan Lywodraeth Cymru. Wrth wneud hyn, mae'r Bil yn nodi dau brif nod i Gymwysterau Cymru ac mae'n cynnwys rhestr – nad yw'n gynhwysfawr – o wyth mater y mae'n rhaid i Gymwysterau Cymru roi sylw iddyn nhw wrth wireddu ei brif nodau.

71. Mae'r dystiolaeth y mae'r Pwyllgor wedi'i chael yn cytuno at ei gilydd fod Llywodraeth Cymru wedi nodi'r pedwar prif gyfyngiad hyn yn gywir. Er hynny mae Colegau Cymru a CBAC yn tanlinellu'r ffaith mai pumed cyfyngiad i bob pwrpas yw'r ffaith mai'r llywodraeth sy'n gwneud y gwaith rheoleiddio ar hyn o bryd, er eu bod yn cydnabod bod y Bil ei hun yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â hyn.

Y prif nodau

72. Mae prif nodau Cymwysterau Cymru wedi'u nodi ar wyneb y Bil yn adran 3. Roedd y dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor o blaid y prif nodau yn gyffredinol er bod peth pryder wedi'i fynegi o ran yr ail brif nod, sef “hybu hyder y cyhoedd”.

73. Wrth bwysleisio mor bwysig oedd hybu hyder y cyhoedd yn system gymwysterau Cymru y tu allan i Gymru, awgrymodd Prifysgolion Cymru y gallai'r ail brif nod fod yn rhy gul ac y byddai angen hefyd i'r corff newydd “inspire the confidence of employers, universities and other stakeholders not just in Wales but across the UK and internationally”.

74. Pan ofynnodd y Pwyllgor a ddylai'r ail brif nod gael ei ehangu i gyfeirio'n unswydd at y dimensiwn rhyngwladol, dywedodd y Gweinidog nad yw'r gair “rhyngwladol” wedi'i grybwyll yn y prif nodau am y cymerid bod hynny'n rhan annatod o'r hyn y byddai angen i Gymwysterau Cymru ei wneud bob dydd.

Barn y Pwyllgor

75. Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar y ddau brif nod a nodir yn y Bil i Gymwysterau Cymru, fel y maen nhw wedi'u drafftio yn adran 3(1) o'r Bil. Mae'r Pwyllgor yn nodi nad yw'r ail brif nod yn cyfeirio'n benodol at hybu hyder y cyhoedd yn rhyngwladol, ond mae'n cytuno â barn y Gweinidog y byddai'r gwaith beunyddiol o hybu hyder y cyhoedd yn cynnwys y dimensiwn rhyngwladol, p'un a ddywedir hynny ar wyneb y Bil neu beidio.

Materion

76. Ni chafwyd sylwadau a oedd yn anghytuno ag unrhyw rai o'r wyth mater a nodir yn adran 3(2) o'r Bil. Er hynny, nodwyd nad oedd y rhestr o wyth mater yn gynhwysfawr a chynigiodd y rhai yr ymgynghorwyd â nhw sawl awgrym ar gyfer ychwanegiadau.

77. Roedd Colegau Cymru'n credu bod angen cylch gwaith cliriach i Gymwysterau Cymru gyflawni'r ddau ddiben a ganlyn, y maen nhw'n argymhell eu rhestru hefyd o dan adran 3(2):

- Hybu parch cydradd rhwng cymwysterau academiaidd a chymwysterau galwedigaethol;
- Hybu cydnawsedd cymwysterau yng Nghymru â'r fframweithiau credydau a chymwysterau Ewropeaidd perthnasol.

78. Mae pwysleisio cynnwys cymwysterau galwedigaethol yn yr arlwy i ddysgwyr yn fater hefyd yr hoffai CBAC ei weld yn cael ei ychwanegu at adran 3(2) ynghyd â rhywbeth a fyddai'n cyfeirio'n bendant at anghenion dysgwyr a'u cynnydd.

79. Mae UCAC hefyd o blaid cyfeiriad mwy pendant yn yr wyth mater at gymwysterau galwedigaethol, gan awgrymu y dylid ychwanegu'r geiriau "ar gyfer y dysgwr, gan gynnwys cymwysterau galwedigaethol" at y mater sy'n cyfeirio at "amrywiaeth a natur y cymwysterau sydd ar gael". Cafodd pwysigrwydd cysoni cymwysterau Cymru â chymwysterau cenhedloedd eraill ei danlinellu hefyd gan ymatebion Prifysgolion Cymru a'r NAHT.

80. O ran ychwanegu mater a fyddai'n hybu "parch cydradd" yn benodol, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

"Well, everyone agrees that we need to make absolutely crystal clear to everyone involved the parity of esteem between general and vocational qualifications. This is our aim in Wales; this is our commitment. There are two ways to go about that. I suppose, you could get into the business of wording something on the face of the Bill that underscores that, or—and this is the approach we've taken—you simply make no distinction in the Bill between general and vocational qualifications. We just talk about "qualifications", and that is your job, as a regulator—the whole gamut of qualifications, and no distinction being made."²²

²² Tystiolaeth lafar, 5 Chwefror 2015, [Cofnod y Trafodion](#)

81. O ran meincnodi cymwysterau'n rhyngwladol, dywedodd y Gweinidog fod cydweithwyr a oedd yn gweithio ar gymwysterau yn ymwneud ag Ewrop eisoes ac yn gyfarwydd â'r fframwaith cymwysterau Ewropeaidd. Cadarnhaodd y Gweinidog fod gwaith yn cael ei wneud ar y pryd i sicrhau bod y cymwysterau ar y lefel briodol a'u bod yn gymaradwy â chymwysterau Ewrop ac y byddai'n disgwyl i Gymwysterau Cymru barhau yn yr un modd pe bai'n gweld yn dda.

82. Dywedodd y Gweinidog hefyd ei bod yn bwysig cofio y byddai gan Gymwysterau Cymru annibyniaeth weithredol ar Lywodraeth Cymru, a'i bod yn bwysig iawn felly na ddylai Llywodraeth Cymru bennu'n rhy fanwl sut y dylai Cymwysterau Cymru fynd ati i bennu blaenoriaethau ei fusnes, na dechrau meicroreoli gwaith y sefydliad.

Barn y Pwyllgor

83. Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar yr wyth mater sydd wedi'u rhestru yn adran 3(2) o'r Bil, ac mae'n nodi – gan nad yw'r rhestr yn un gynhwysfawr – na fyddai'n atal Cymwysterau Cymru rhag rhoi sylw i faterion eraill nad oedden nhw o reidrwydd wedi'u cynnwys ar wyneb y Bil.

84. Er hynny, mae'r Pwyllgor yn awyddus i'r materion sydd wedi'u rhestru ar wyneb y Bil gynnwys y prif feysydd y nododd y rhanddeiliaid eu bod yn berthnasol. Mae tystiolaeth wedi'i rhoi bod yna feysydd eraill nad ydyn nhw wedi'u cynnwys yn y rhestr materion ar hyn o bryd.

85. Un peth a oedd yn peri pryder i'r rhanddeiliaid yn benodol oedd hybu cymwysterau galwedigaethol a/neu barch cydradd; a meincnodi rhyngwladol. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai'r Gweinidog roi ystyriaeth i gynnwys y materion ychwanegol hyn yn y rhestr yn adran 3(2).

Argymhelliad: Dylai'r Gweinidog ystyried cynnwys materion ychwanegol yn y rhestr yn adran 3(2), ynglŷn a hybu cymwysterau galwedigaethol a/neu barch cydradd a meincnodi rhyngwladol.

7. Cyfyngu ar gyllido cyrsiau penodol

Gofyniad ynglŷn â fersiynau Cymreig o gymwysterau

86. Mae'r Pwyllgor wedi clywed pryderon am eiriad adran 29(3) o'r Bil. Er mwyn i gwrs addysg neu hyfforddiant gael cyllid cyhoeddus, mae adran 29(3) yn gofyn bod rhaid iddo arwain at gymhwyster "fersiwn Gymreig o'r cymhwyster". Mae'r Memorandwm Esboniadol (para 64) a'r Nodiadau Esboniadol (para 64) yn dweud bod hyn yn golygu bod rhaid i'r cymhwyster fod wedi'i gymeradwyo gan Gymwysterau Cymru. Mae hynny'n wahanol i ofyniad bod rhaid cael fersiwn penodol sy'n unigryw i Gymru, sef yr hyn a awgrymir gan eiriad adran 29(3).

87. Ysgrifennodd CBAC nad oedd geiriad adran 29(3) "yn llawer o gymorth, ac mae'n ymddangos yn ddiangen" o gofio bod adrannau eraill o'r Bil yn cyfeirio at yr amod bod rhaid i gymhwyster gael ei gymeradwyo gan Gymwysterau Cymru. Ym marn CBAC, dyma "ddisgrifiad mwy addas".²³

88. Dywedodd Gareth Pierce, Prif Weithredwr CBAC, wrth y Pwyllgor²⁴ fod y syniad bod arnon ni fersiwn Gymreig o bopeth "braidd yn negyddol" ac nad oedd yn rhag-weld y byddai hynny'n angenrheidiol nac yn effeithlon. Pan ofynnwyd am eu barn nhw, dywedodd Pearson a'r OCR wrth y Pwyllgor²⁵ fod geiriad adran 29(3) yn ymddangos yn annelwig ac yr hoffen nhw ei weld yn cael ei egluro.

89. Roedd Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu (FAB), ynghyd â'r tri aelod ohono a gyflwynodd ymatebion pur debyg i'r ymgynghoriad, am i unrhyw ofynion ynglŷn â fersiynau Cymreig o gymwysterau fod ar lefel ddigon uchel i'r cyrff dyfarnu allu "contextualise qualifications and/or use core and options approaches to meet those requirements". I'r FAB, byddai hynny'n helpu i sicrhau na fyddai'r farchnad Gymreig yn mynd yn rhy benodol ac yn sicrhau na fyddai cyrff dyfarnu'n credu bod cynnig cymwysterau'n annymunol neu'n anymarferol.

90. Pe bai'n rhaid cael fersiwn ychydig bach yn wahanol o'r un cymhwyster yn y bôn, mae'r FAB yn awgrymu y gallai hynny beri dryswch i "learners, employers and other stakeholders", gan effeithio'n andwyol ar symudedd dysgwyr. Mae'r FAB yn argymhell, felly, y dylai'r Bil gael ei ddiwygio er mwyn egluro mai label gweinyddol yn unig fyddai'r term "fersiwn Gymreig", i'w

²³ Tystiolaeth ysgrifenedig, [WJEC, QW01](#)

²⁴ Tystiolaeth lafar, 14 Ionawr 2015, [Cofnod y Trafodion](#)

²⁵ Tystiolaeth lafar, 22 Ionawr 2015, [Cofnod y Trafodion](#)

ddefnyddio i gyfeirio at y cymwysterau hynny sydd wedi'u cymeradwyo gan Gymwysterau Cymru i gael eu defnyddio yng Nghymru".²⁶

91. Ymatebodd y Gweinidog gan gadarnhau mai label gweinyddol neu gyfreithiol yn y bôn oedd y term "fersiwn Gymreig", a hwnnw'n dynodi bod cymhwyster yn dod o dan gylch gwaith Cymwysterau Cymru. Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd y gallai'r term "fersiwn Gymreig" fod yn gymwys i gymhwyster nad oedd yn wahanol i'r hyn a ddarperid yn Lloegr, heblaw am y rhif cyfeirnod o bosibl.

Barn y Pwyllgor

92. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr esboniad a roddwyd gan y Gweinidog ynghylch ystyr "fersiwn Gymreig" yn adran 29(3) o'r Bil, ac mae'n fodlon ar y bwriad polisi y tu ôl i'r adran honno. Er hynny, mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi pryderon y rhanddeiliaid nad yw geiriad adran 29(3) o'r Bil yn glir, ac mae'n credu y dylai Llywodraeth Cymru ailystyried y geiriad er lles sicrwydd ac eglurder.

Argymhelliad: Dylai'r Gweinidog ailystyried geiriad adran 29(3) o'r Bil, a'r cyfeiriad at "fersiwn Gymreig o'r cymhwyster" er mwyn rhoi sicrwydd ac eglurder ynghylch ystyr yr adran hon.

Diplomâu Mynediad i Addysg Uwch

93. Mae adran 51(1) yn diffinio cymhwyster y mae'r Ddeddf yn gymwys iddo fel "cymhwyster academaidd neu gymhwyster galwedigaethol a ddyfernir yng Nghymru, ac eithrio gradd sylfaen, gradd gyntaf neu radd ar lefel uwch". Mae'r Pwyllgor yn cymryd bod hyn yn golygu y byddai Diplomâu Mynediad i Addysg Uwch (AHE) yn dod o dan gylch gwaith Cymwysterau Cymru.

94. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth ysgrifenedig gan Agored Cymru yn awgrymu bod yna "anghysondeb" o ran "safle unigryw" Diplomâu AHE. Agored Cymru yw Asiantaeth Dilysu Mynediad Cymru, sy'n golygu ei fod yn dilysu pob Diploma AHE. Mae'r cynllun cydnabod ar gyfer pob Diploma AHE yn cael ei osod gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA), sef sefydliad i'r Deyrnas Unedig gyfan sy'n cael ei gontractio gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) i reoleiddio'r ddarpariaeth addysg uwch yng Nghymru ac i sicrhau ansawdd y ddarpariaeth honno.

95. Yn ôl pob golwg, bydd Diplomâu AHE o fewn cylch gwaith Cymwysterau Cymru gan mai cymhwyster Lefel 3 ydyn nhw, o dan lefel Gradd Sylfaen. Er

²⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, [Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu: QW16](#)

hynny, gan fod y cymwysterau hyn yn cael eu rheoleiddio gan y QAA, mae Agored Cymru'n dweud na fyddan nhw'n cael eu cymeradwyo gan Gymwysterau Cymru".²⁷

96. Er bod y mwyafrif o'r dysgwyr sy'n cymryd Diploma AHE dros 19 oed ac felly'n esempt rhag y gofyniad yn adran 29 fod rhaid i gwrs arwain at gymhwyster sydd wedi'i gymeradwyo gan Gymwysterau Cymru er mwyn cael arian cyhoeddus, mae Agored Cymru'n nodi y gall Diplomâu AHE fod yn addas i ddysgwyr sy'n llai na 19 oed, o dan amgylchiadau arbennig. Mae Agored yn dadlau: "the Bill will need to accommodate a mechanism for approval of the AHE Diploma that does not prevent it being publicly funded in appropriate circumstances".²⁸

Barn y Pwyllgor

97. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r ddarpariaeth yn adran 29(6) i Weinidogion Cymru ddynodi unrhyw gwrs addysg a hyfforddiant fel un sy'n gymwys i gael arian cyhoeddus. Mae'n bosibl felly i "anghysondebau" o'r fath gael sylw drwy ddefnyddio pŵer o'r fath.

98. Er hynny, mae'r Pwyllgor yn gofidio y gallai canlyniadau anfwriadol posibl y ddarpariaeth yn adran 29 o'r Bil (mai dim ond cyrsiau sy'n arwain at gymwysterau sydd wedi'i gymeradwyo gan Gymwysterau Cymru a fydd yn cael eu hariannu'n gyhoeddus i ddysgwyr o dan 19 oed) godi ar gyfer Diplomâu AHE neu unrhyw gymhwyster arall y gellid effeithio arno yn yr un modd.

99. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai'r Gweinidog egluro safle Diplomâu AHE, neu gymwysterau tebyg, ac a fyddan nhw'n cael eu cymeradwyo a'u rheoleiddio gan Gymwysterau Cymru ynteu'n parhau i fod yn gyfrifoldeb i'r QAA a CCAUC.

Argymhelliad: Dylai'r Gweinidog ystyried canlyniadau anfwriadol posibl y ddarpariaeth yn adran 29 o'r Bil ar gyfer Diplomâu AHE, neu unrhyw gymhwyster arall y gellid effeithio arno yn yr un modd, ac egluro a fyddan nhw'n cael eu cymeradwyo a'u rheoleiddio gan Gymwysterau Cymru ynteu'n parhau i fod yn gyfrifoldeb i'r QAA a CCAUC.

²⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, [Agored Cymru: QW21](#)

²⁸ Ibid

8. Blaenoriaethu cymwysterau

Yr angen i flaenoriaethu

100. At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor yn cydnabod bod angen mireinio a rhesymoli'r nifer o gymwysterau galwedigaethol sy'n bodoli yng Nghymru ar hyn o bryd. Bydd y pwerau y mae'r Bil yn eu rhoi i Gymwysterau Cymru a Gweinidogion Cymru i flaenoriaethu cymwysterau yn fodd i hyn gael ei wneud.

101. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud y bydd rhestr o gymwysterau blaenoriaethol yn fodd i Gymwysterau Cymru ganolbwyntio adnoddau cyhoeddus yn fwyaf effeithiol ar y cymwysterau mwyaf arwyddocaol. Ni fydd yn ofynnol i Gymwysterau Cymru ystyried cymeradwyo cymwysterau nad ydyn nhw'n flaenoriaeth. Caiff benderfynu gwneud hynny, ar yr amod bod y penderfyniad yn un clir ac yn cyd-fynd â'r broses benderfynu y bydd wedi'i gyhoeddi.

102. Disgrifiodd y Gweinidog y rhestr o gymwysterau blaenoriaethol fel dull sy'n galluogi Gymwysterau Cymru i lunio strategaeth, gan ganolbwyntio'r ymdrechion ar fathau penodol o gymwysterau. Awgrymodd y Gweinidog hefyd y bydd y rhestr o flaenoriaethau yn helpu i fynd i'r afael â'r nifer gormodol o gymwysterau sydd ar gael, y dywedodd eu bod yn cael eu gweld yn eang fel problem.

Sut y bydd blaenoriaethu'n gweithio yn ymarferol

103. Mae sawl tyst wedi tanlinellu na fydd y broses o osod blaenoriaethau'n un hawdd. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig nhw, dywedodd Cyngor y Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu (CCEA), sef y rheoleiddiwr cymwysterau yng Ngogledd Iwerddon: "across the current suite of non-degree level, general and vocational qualifications, this is a potentially large item of work ... and it will take some time to meet the objectives stated".²⁹

104. Maen nhw'n rhybuddio hefyd y ceir cryn her wrth adolygu'r holl gymwysterau galwedigaethol a chyffredinol at ddibenion blaenoriaethu neu fel arall, hyd yn oed cyn i'r broses hon ddigwydd.

105. Yn ei dystiolaeth lafar, dywedodd Prif Weithredwr y CCEA, Justin Edwards:

²⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, [Cyngor y Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu: QW13](#)

“I think one of the challenges around establishing prioritisation is how often you cycle or identify these priorities. If you identify the priorities too often and take in every opportunity, you could end up differentiating the market, to an extent, or having smaller qualifications that are difficult to benchmark, and, if you leave it too long, you could miss an economic or a social opportunity that is presenting itself.”³⁰

106. Mynegodd yr FAB bryder bod yna risg y gallai rhestr o gymwysterau blaenoriaethol fynd yn anghyson ag anghenion cyflogwyr a’r economi ehangach yn gyflym, er gwaethaf mesurau i’w diweddarau’n rheolaidd. Maen nhw’n credu bod dewisiadau eraill, gwell, ar gael i fynd i’r afael â’r rhesymeg y tu ôl i flaenoriaethu yn lle cael Cymwysterau Cymru a Gweinidogion Cymru i lunio rhestr.

107. Argymhellodd yr FAB y dylai ystyriaeth gael ei rhoi i “different ways that can be used to target the regulatory resources that are available to ensure they are effectively allocated”³¹, gan ychwanegu “exploration of risk based approaches to regulation may present an alternative approach to a priority list approach”.³²

108. Pan ofynnwyd am raddfa’r dasg o bennu blaenoriaethau cymwysterau a sut y byddai’r broses yn gweithio mewn gwirionedd, dywedodd y Gweinidog:

“But, in terms of how we set off on this road now, I will be having early discussions with Philip Blaker, the Chief Executive Officer of Qualifications Wales, about how that first priority list is actually drawn up. It will be a decision for the board of Qualifications Wales, working alongside, and consulting obviously, with me. It is about recognising the fact that the qualifications landscape is complex, overly complex in fact.”³³

Barn y Pwyllgor

109. Mae’r rhan fwyaf o’r dystiolaeth a gafwyd yn awgrymu bod angen mireinio a rhesymoli’r cymwysterau sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru. Mae’r Pwyllgor yn credu y bydd rhestr o gymwysterau blaenoriaethol yn galluogi Cymwysterau Cymru i ganolbwyntio adnoddau cyhoeddus yn fwyaf

³⁰ Tystiolaeth lafar, 22 Ionawr 2015, [Cofnod y Trafodion](#)

³¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, [Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu: QW16](#)

³² Ibid

³³ Tystiolaeth lafar, 5 Chwefror 2015, [Cofnod y Trafodion](#)

effeithiol ar y cymwysterau mwyaf arwyddocaol, ac mae'n fodlon ar y pwerau i osod blaenoriaethau, fel y maen nhw wedi'u cynnwys yn y Bil.

110. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod pryderon a godwyd gan y rhanddeiliaid am yr anawsterau posibl a geid wrth bennu blaenoriaethau cymwysterau yng Nghymru, ac mae'n credu y dylai'r Gweinidog roi ystyriaeth lawn i'r pryderon hyn. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog y bydd yn mynd ati, wrth fwrw ymlaen â'r blaenoriaethau, i gynnal trafodaethau cynnar gyda Phrif Weithredwr Cymwysterau am sut y caiff y rhestr gyntaf o flaenoriaethau ei llunio, ac mae'n credu y dylai'r pryderon a godwyd fod yn rhan o'r trafodaethau cynnar hyn.

Argymhelliad: Er bod y Pwyllgor yn fodlon ar y pwerau i osod blaenoriaethau, fel y maen nhw wedi'u cynnwys yn y Bil, mae'r Pwyllgor yn galw ar y Gweinidog i roi ystyriaeth lawn i bryderon a godwyd gan y rhanddeiliaid, ac i gynnwys y pryderon hynny mewn trafodaethau cynnar gyda Phrif Weithredwr Cymwysterau Cymru.

Blaenoriaethu cymwysterau yn ôl pwysigrwydd hyder y cyhoedd

111. Er bod CBAC yn cytuno ag egwyddor blaenoriaethu cymwysterau, maen nhw'n anghysurus ynghylch y prif feini prawf y mae adran 13(2) yn eu nodi ar gyfer penderfyniadau ar hyn. Yn ôl CBAC, mae angen gofal wrth gyflwyno'r syniad bod hyder y cyhoedd yn bwysicach i rai cymwysterau na'i gilydd. Yn y Pwyllgor, esboniodd Gareth Pierce hyn fel a ganlyn:

“Surely, the public has a right to expect to be able to place the same confidence in all qualifications, whether it's a GCSE in mathematics or a competence qualification in electrical installation. I would hope that we're placing the same level of confidence. So, that's my concern, that this concept of confidence seems to drive the whole process of prioritising and, therefore, will create a rank order of confidence, which I think is not the right thing.”³⁴

112. Mae CBAC yn dadlau y byddai'r angen am gysondeb wrth ddylunio a chysondeb mewn safonau yn well sail ar gyfer pennu blaenoriaethau, yn yr un modd â'r meini prawf ynglŷn â chyfyngtu cymwysterau.

Barn y Pwyllgor

113. O ran blaenoriaethu cymhwyster, mae adran 13(2) o'r Bil yn nodi'r amod “bod Cymwysterau Cymru a Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod

³⁴ Tystiolaeth lafar, 14 Ionawr 2015, [Cofnod y Trafodion](#)

sicrhau a chynnal hyder y cyhoedd yn y cymhwyster yn flaenoriaeth i Gymwysterau Cymru...”.

114. Er hynny, mae adran 13(2) yn mynd ymhellach, gan ddweud bod penderfyniad i flaenoriaethu'n cael ei wneud hefyd "...oherwydd arwyddocâd y cymhwyster gan roi sylw i anghenion dysgwyr a chyflogwyr yng Nghymru”.

115. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod pwynt CBAC, mae'r Pwyllgor yn credu y bydd y penderfyniad i flaenoriaethu cymhwyster, yn unol ag adran 13(2), yn cael ei seilio ar fwy na dim ond cynnal hyder y cyhoedd. Wrth wneud penderfyniad i flaenoriaethu, mae'n rhaid hefyd i Gymwysterau Cymru fod wedi ystyried arwyddocâd y cymhwyster gan roi sylw i anghenion y dysgwr ac anghenion cyflogwyr.

116. Mae'r Pwyllgor yn cytuno y dylai fod gan y cyhoedd hyder yn yr holl gymwysterau a gynigir yng Nghymru, ac mae'n fodlon nad yw adran 13(2) yn mynd yn groes i'r cysyniad hwnnw. Mae'r Pwyllgor yn credu bod yr amod a nodwyd yn adran 13(2) yn cyfuno pwysigrwydd cyhoeddus ac arwyddocâd y cymhwyster, ac felly mae'r Pwyllgor yn fodlon ar eiriad yr adran hon.

9. Cyfyngu cymwysterau

117. Cymysg oedd y dystiolaeth a ddaeth i law am yr adrannau o'r Bil sy'n sefydlu'r prosesau ar gyfer cyfyngu cymwysterau. Gall y dehongliadau o gynigion y Bil gael eu disgrifio ar y ddwy ochr fel hyn:

- Naill ai: dull i symleiddio a mireinio nifer y cymwysterau a gynigir i bobl ifanc, yn ogystal â sefydlu mwy o gysondeb;
- Neu: cyfyngiad er gwaeth ar y dewis ynglŷn â pha gymhwyster sy'n fwyaf addas i unigolyn gan aflunio marchnad gymwysterau Cymru o bosibl.

118. Roedd y rhai a oedd yn cefnogi'r darpariaethau ynglŷn â chyfyngu yn gwneud hynny'n bennaf at ddibenion cysondeb yn y cymwysterau sy'n cael eu cymryd gan ddysgwyr, er enghraifft Estyn, yr NUS a'r Gwasanaeth Addysg Catholig.

Y pryder a fynegwyd gan yr FAB

119. Roedd y gwrthwynebiad i'r adrannau o'r Bil sy'n gwneud darpariaeth ynglŷn â blaenoriaethu a chyfyngu cymwysterau'n dod yn bennaf o du'r FAB a'i dri aelod (yr HABC, Agored Cymru a'r CMI) a gyflwynodd ymatebion a oedd bron yr un fath ag ymateb eu cynrychiolydd cyffredin.

120. Mae'r FAB yn dadlau y gallai'r cynnig ynglŷn â blaenoriaethu a chyfyngu effeithio ar y farchnad cymwysterau yng Nghymru ac ar anghenion dysgwyr. Gosodwyd llawer o'u tystiolaeth yng nghyd-destun aflunio'r farchnad gymwysterau yng Nghymru a'r posibilrwydd y gallai nifer neu nifer fawr o gyrff dyfarnu dynnu'n ôl o Gymru yn sgil yr agweddau hyn ar y Bil.

121. Mae'r FAB yn credu y bydd cyfyngu cymhwyster i un darparydd yn creu effaith negyddol ar y farchnad gymwysterau yng Nghymru. Byddai'n well ganddyn nhw weld Cymwysterau Cymru'n defnyddio'i swyddogaethau ymchwil a ddarperir gan y Bil i ategu "the effective comparability of qualifications" ac i hoelio sylw ar "taking steps to improve the public perception of the current competitive market".³⁵

³⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, [Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu: QW16](#)

122. Mae'r risgiau a nodwyd gan yr FAB yn cynnwys:

- Dileu dewis y canolfannau (sef cyflogwyr, colegau a darparwyr hyfforddiant) o ran cymhwyster pa gorff dyfarnu sydd orau i ateb eu hanghenion nhw ac anghenion eu dysgwyr;
- Mwy o gymhlethdod i'r canolfannau os caiff cyrff dyfarnu gwahanol eu dewis ar gyfer cymwysterau blaenoriaethol cyfyngedig gwahanol (ar hyn o bryd maen nhw'n cael dewis defnyddio'r un darparwydd ar gyfer y cyfan neu rai o'r cymwysterau y maen nhw'n eu cynnig);
- Diffyg dewis i ddysgwyr o ran pa gorff dyfarnu sy'n fwyaf addas iddyn nhw (a all fod yn arbennig o berthnasol os yw cyrff penodol yn taro tant mewn sector diwydiannol penodol);
- Llai o gymhellant i gyrff dyfarnu arloesi am fod y sbardun cystadleuol i wneud hynny wedi'i ddileu;
- P'un a fydd fersiynau Cymreig o gymwysterau'n ddigon cludadwy i Loegr, Ewrop a'r tu hwnt;
- Yr effaith ar siâp y farchnad cymwysterau galwedigaethol (gweler canlyniadau anfwriadol isod).

123. Roedd Pearson hefyd yn amheus ynghylch y manteision y mae Llywodraeth Cymru'n honni y byddan nhw'n codi o gael dewis un darparwydd ar gyfer cymwysterau a penodol. Dyma a ddywedodd Pearson yn eu hymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn 2013:³⁶

“Competition, when aligned with effective regulation, is the best means of delivering efficient outcomes.

“By contrast a system that is reliant on a single supplier of qualifications is likely to become less responsive to the market and less efficient in delivery. It will also be a single point of failure in the system which can often make quick remedial action more difficult to accomplish.”

Canlyniadau negyddol anfwriadol

124. Mae'r FAB yn enwi rhai canlyniadau posibl os bydd Cymwysterau Cymru'n cyfyngu cymwysterau blaenoriaethol, sef canlyniadau y gellid eu disgrifio fel canlyniadau anfwriadol posibl i'r Bil. Maen nhw'n tanlinellu bod y

³⁶ [Ein Cymwysterau - Ein Dyfodol: Ymgynghoriad ar gynigion i greu corff cymwysterau newydd i Gymru](#)

farchnad yng Nghymru'n debyg o fod yn gymharol fach i'r mwyafrif o gyrff dyfarnu yn y mwyafrif o'r sectorau o'u cymharu â'u busnes yn gyffredinol.

125. Mae'r FAB hefyd yn dweud, pe bai corff dyfarnu'n cael ei atal rhag darparu cymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig penodol sy'n creu refeniw sylweddol, y gallai benderfynu am resymau masnachol na ddylai drafferthu i gynnig ei gymwysterau o gwbl yng Nghymru, yn enwedig os dyna'r rhai lleiaf proffidiol. Gallai hynny effeithio ar rai sectorau arbenigol, a allai weld na fyddai eu cymwysterau'n cael eu darparu.

126. Yn ychwanegol, mae'r FAB yn dweud nad oes yna warrant y byddai corff dyfarnu'n dymuno dod yn ôl i'r farchnad Gymreig pan fyddai ymarfer comisiynu arall yn cael ei drefnu yn y dyfodol neu pe na bai'r cymhwyster yn gyfyngedig mwyach. Maen nhw'n dweud y gallai hynny adael Cymwysterau Cymru mewn sefyllfa lle byddai'n wynebu risg fawr gan arwain at sefyllfa lle nad oes ond un darparwr realistig ar gyfer rhai cymwysterau galwedigaethol.

127. I'r FAB, mae'r ffactorau hyn yn rhan o gyfuniad o resymau pam y gallai gyrff dyfarnu fod yn llai awyddus i gynnig cymwysterau yng Nghymru o ganlyniad i'r Bil, yn groes i'r hyn y mae Llywodraeth Cymru'n ei rag-weld.

128. Gan ymateb i'r pwyntiau a gododd yr FAB, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

“Well, we should all be concerned if someone is coming out with that kind of comment, and then we should move on swiftly to making sure that it's a baseless comment. You see, this will be a matter for Qualifications Wales: to make sure that the strategy enables stakeholders to have a fair crack of the whip. So, in other words, you know, it'll have to sit down with awarding bodies.”³⁷

129. Roedd y Gweinidog wedi esbonio o'r blaen i'r Pwyllgor ei fod yn teimlo bod y ddarpariaeth newydd ynglŷn â chomisiynu neu ddewis corff dyfarnu i fod yn unig ddarparwr ar gyfer cymhwyster penodedig yn fwy deniadol i gyrff dyfarnu na'r trefniadau presennol. Gan ddisgrifio'r sefyllfa bresennol, dywedodd y Gweinidog:

“Now that is not very attractive for some awarding bodies, particularly those that are England based. There is a very large market in England and a very small market in Wales. Essentially, what you would be asking them to do is to collaborate with WJEC and/or others for a

³⁷ Tystiolaeth lafar, 5 Chwefror 2015, [Cofnod y Trafodion](#)

small proportion of a small proportion of their business. Their response to that was, 'Sorry, but that's not worth our while'. So, you are left effectively with a default position of WJEC being the only player in town.

"What the new system will allow is a more attractive proposition for all awarding bodies because they can all step up and compete equally for the business.

"...the new system will give us clarity and will actually open up the system to a greater degree than it is at the moment."³⁸

130. Gan esbonio ymateb y cyrff dyfarnu heblaw CBAC i'r hyn sy'n cael ei gynnig gan Lywodraeth Cymru yn y Bil: dywedodd swyddog y Gweinidog:

"I need to confirm that, when we met with senior officials in the main awarding bodies, they explained why they had withdrawn from the collaborative option, which was because it would not have been favourable to their business to have to share intellectual property rights and so on with a provider on a single specification. If they had the opportunity, they told us, to compete for a whole qualification or a specific suite of qualifications, then they would have been very interested in doing so and they were very welcoming of, and receptive to, the idea and the proposals that we were developing."³⁹

131. Pan ofynnodd y Pwyllgor i'r OCR a Pearson a fyddai ganddyn nhw ddi-ddordeb mewn cael eu comisiynu i ddarparu cymwysterau penodol i'r cyfan o'r farchnad sy'n cael ei hariannu'n gyhoeddus, dywedodd y ddau y byddai, o bosibl.

Barn y Pwyllgor

132. Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod yna wahaniaeth barn pendant yn y dystiolaeth a gafwyd, ac nad oes dystiolaeth gadarn y naill ffordd na'r llall i awgrymu beth fyddai effaith barhaol cyfyngu cymwysterau blaenoriaethol.

133. Mae'r Pwyllgor yn arbennig o bryderus ynghylch y canlyniadau anfwriadol posibl a godwyd gan yr FAB, ac mae'n credu y dylai'r Gweinidog ystyried y pryderon hynny'n llawn cyn i'r Bil gael ei ddeddfu.

³⁸ Tystiolaeth lafar, 11 Rhagfyr 2014, [Cofnod y Trafodion](#)

³⁹ Ibid

134. Mae'r Pwyllgor hefyd yn credu y dylai Llywodraeth Cymru adolygu pa effaith ar y farchnad gymwysterau a gâi penderfyniadau i gyfyngu cymwysterau blaenoriaethol, ac y dylai gyflwyno adroddiad ar yr adolygiad hwnnw i'r Cynulliad.

Argymhelliad: Cyn i'r Bil gael ei ddeddfu, dylai'r Gweinidog roi ystyriaeth lawn i'r pryderon a godwyd gan Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu ynghylch cyfyngu cymwysterau blaenoriaethol, yn enwedig felly i'r canlyniadau anfwriadol.

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru adolygu pa effaith ar y farchnad gymwysterau a gâi penderfyniadau i gyfyngu cymwysterau blaenoriaethol, ac y dylai gyflwyno adroddiad ar yr adolygiad hwnnw i'r Cynulliad.

10. Ymagwedd strategol at gymwysterau

135. Roedd llawer o'r dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor yn pwysleisio mor bwysig oedd cymryd cyfleoedd i ddatblygu ymagwedd fwy strategol at gymwysterau galwedigaethol a hybu parch cydradd â'r cymwysterau cyffredinol/academaidd cyfatebol.

136. Ar ôl i'r Bil gael ei gyflwyno, mewn datganiad llafar dywedodd y Gweinidog ei fod yn rhag-weld y byddai Cymwysterau Cymru'n weithredol yn y maes galwedigaethol:

"There has been a wall of confusion in terms of vocational qualifications for some time, but I am sure that Qualifications Wales will bring further progressive pressure in order to make sure that the landscape for learners is clearer, that we have a simpler path to navigate, and that we have that reassurance around the quality of individual qualifications."⁴⁰

Ymagwedd strategol at flaenoriaethau a chyfyngu

137. Yr awgrym yn y Memorandwm Esboniadol yw bod y model comisiynu ar gyfer cymwysterau cyfyngedig yn debycach o gael ei fabwysiadu ar gyfer cymwysterau academaidd na chymwysterau galwedigaethol, gan rag-weld y canlynol:

Er y bydd rhai cymwysterau galwedigaethol yn parhau i fodoli o fewn marchnad lle mae mwy nag un darparwr, bydd yn bosibl i Gymwysterau Cymru benderfynu mai sicrhau un gyfres sydd fwyaf priodol ar gyfer cymwysterau eraill.⁴¹

138. Byddai'r ymagwedd hon yn cael ei chefnogi gan Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTfW) a ddadleuai er y gallai cyfyngu cymwysterau blaenoriaethol academaidd fod o les o ran unffurfedd a chysondeb, na fyddai'r un peth yn wir o ran y sector galwedigaethol.

139. Byddai'r NTfW, sy'n derbyn bod angen cryf am y Bil, hefyd yn poeni pe bai'r ddarpariaeth ynglŷn â chyfyngu cymwysterau i un ffurf ac un darparydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cymwysterau galwedigaethol. Er bod yr NTfW yn dadlau'n gryf o blaid parch cydradd rhwng cymwysterau galwedigaethol ac academaidd, doedd hynny ddim o reidrwydd yn golygu eu trin nhw yn un modd. Ysgrifennodd yr NTfW:

⁴⁰ Y Cyfarfod Llawn, 2 Rhagfyr 2014, [Cofnod y Trafodion](#)

⁴¹ [Y Memorandwm Esboniadol](#), paragraff 87

“...any restriction on awarding bodies to operate in Wales would have a detrimental effect on choice, especially as it is felt that no one awarding body would have the breadth of specialism required to work across the broad spectrum of sectors within Wales.”⁴²

140. Ychwanegodd yr NTfW:

“In addition, we must recognise that the qualifications ‘market’ in Wales is comparatively small, and that a restrictive commissioning process will be counterproductive to provider and employer choice and/or meeting the unique needs of learners.”

141. Er hynny, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor⁴³ nad oedd rheswm dros wahaniaethu rhwng cymwysterau academiaidd a galwedigaethol a bod cyrsiau Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol Cychwynnol (IVET) yn un o’r darpar feysydd amlwg i roi blaenoriaeth iddyn nhw ac o bosibl cyfyngu cymwysterau ynddo. Mae hyn yn cyd-fynd â pholisi Llywodraeth Cymru o beidio â chyfeirio’n unswydd at gymwysterau galwedigaethol na pharch cydradd o fewn prif nodau Cymwysterau Cymru na’r materion y mae’n rhaid iddo roi sylw iddyn nhw.

142. I’r Gweinidog, byddai unrhyw wahaniaeth yn yr ymagwedd yn deillio o’r modd y byddai Cymwysterau Cymru’n defnyddio’r pwerau a gâi eu rhoi iddo gan y Bil, yn hytrach na chael ei ddiffinio yn y ddeddfwriaeth ei hun:

“... there’s no distinction in the Bill between vocational and other qualifications. So, that toolkit around restriction and commissioning is exactly the same in terms of the two strands of qualification. So, essentially, it would be up to Qualifications Wales to utilise that toolkit as it saw fit, in terms of what it saw as the best strategic way forward. The toolkit is there, and it is exactly the same toolkit, no matter what kind of qualification we’re talking about.”⁴⁴

143. Pan ofynnwyd iddo a allai ef fynd ati mewn gwirionedd i bennu cyfeiriad strategol Cymwysterau Cymru ynglŷn â chymwysterau galwedigaethol, atebodd y Gweinidog na ddylai roi’r cyfeiriad strategol hwnnw, er y gallai roi barn wleidyddol ynglŷn ag ef, yn nhermau’r darn hwn o ddeddfwriaeth.

⁴² Tystiolaeth ysgrifenedig, [Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru: QW24](#)

⁴³ Tystiolaeth lafar, 11 Rhagfyr 2014, [Cofnod y Trafodion](#)

⁴⁴ Tystiolaeth lafar, 5 Chwefror 2015, [Cofnod y Trafodion](#)

Barn y Pwyllgor

144. Mae'r Pwyllgor yn credu bod y Bil yn gwneud darpariaeth ddigonol i alluogi Cymwysterau Cymru i arddel ymagwedd strategol at gymwysterau galwedigaethol.

145. Fel yr amlinellwyd gan y Gweinidog, mae'r Bil yn rhoi "pecyn cymorth" i Gymwysterau Cymru sy'n caniatáu iddo deilwra'i ymagwedd ar gyfer cymwysterau cyffredinol/academaidd a chymwysterau galwedigaethol yn ôl yr angen.

146. Er hynny, lle bydd ymagwedd Cymwysterau Cymru'n amrywio, mae'r Pwyllgor yn poeni bod angen mecanwaith effeithiol ar gyfer gwaith craffu ac atebolrwydd o ran sut mae'r gwaith craffu hwnnw wedi'i wneud. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai'r Gweinidog ystyried a ddylid cynnwys darpariaeth yn y Bil i'w gwneud yn ofynnol i fanylion unrhyw wahaniaeth yn yr ymagwedd gael eu cynnwys yn adroddiad blynyddol Cymwysterau Cymru.

Argymhelliad: Dylai'r Gweinidog ystyried a ddylid cynnwys darpariaeth yn y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i fanylion y rhesymeg dros flaenoriaethu a chyfyngu cymwysterau academaidd a galwedigaethol gael eu cynnwys yn adroddiad blynyddol Cymwysterau Cymru.

Paneli Cyngori ar Gymwysterau Sectorau

147. Clywodd y Pwyllgor sylwadau gan yr NTfW am y berthynas a ddylai fodoli rhwng Cymwysterau Cymru a'r Panel Cyngori ar Gymwysterau Sectorau (SQAPs). Pwysleisiodd yr NTfW bwysigrwydd yr SQAPs, y mae Llywodraeth Cymru'n dweud y byddan nhw'n cynnig golwg strategol ar gymwysterau ac yn nodi unrhyw fylchau mewn sectorau penodol.

148. Mae'r NTfW yn credu y dylai fod gan Gymwysterau Cymru "strong role in co-ordinating the SQAPs to ensure that the vocational qualifications developed in Wales (for Wales) are fit for purpose".⁴⁵

149. Mae'r Eirfa sy'n cyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol Saesneg yn disgrifio SQAPs fel a ganlyn:

Mae Paneli Cyngori ar Gymwysterau Sectorau yn system newydd ar gyfer cynnwys cynrychiolwyr cyflogwyr ac arbenigwyr mewn gwaith i adolygu cymwysterau yng Nghymru. Mae paneli'n cael eu datblygu ar hyn o bryd i nifer o sectorau a'r bwriad yw y byddan nhw'n cynnig

⁴⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, [Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru: QW24](#)

cyngor allweddol i Gymwysterau Cymru ynghylch yr angen am gymwysterau yn y sectorau y maen nhw'n eu cynrychioli.⁴⁶

150. Cadarnhaodd y Gweinidog ei fwriad y dylid cael cysylltiadau agos rhwng Cymwysterau Cymru a'r SQAPs. Er nad yw SQAPs yn cael eu crybwyll yn benodol yn y Bil, dywedodd y Gweinidog fod rhaid cael perthynas gyson rhyngddyn nhw a Chymwysterau Cymru, a honno'n berthynas sy'n cael ei chynnal yn dda.

Barn y Pwyllgor

151. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y rhan bwysig sydd gan SQAPs i'w chwarae wrth adolygu cymwysterau yng Nghymru, ac mae'n credu bod rhaid i Gymwysterau Cymru gadw perthynas agos â'r SQAPs.

Prentisiaethau

152. Mae'r awdurdodau sy'n dyroddi prentisiaethau'n gyfrifol am sicrhau mai dim ond y fframweithiau prentisiaethau hynny sy'n cydymffurfio â Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru sy'n cael eu dyroddi ac felly eu cydnabod. Ar hyn o bryd, y cyngorau sgiliau sector a'r cyrff pennu safonau yn bennaf yw'r awdurdodau dyroddi yng Nghymru.

153. Cyfeiriodd yr NTfW a'r FAB yn eu papurau tystiolaeth ysgrifenedig⁴⁷ at ddiffyg rôl ddiffiniedig i Gymwysterau Cymru ynglŷn â phrentisiaethau.

154. Mae'r FAB yn ysgrifennu nad yw cylch gwaith Cymwysterau Cymru yn hyn o beth yn glir naill ai o'r Bil neu o'r Memorandwm Esboniadol. Dywedodd yr NTfW wrth y Pwyllgor eu bod yn dadlau'n gryf "that Qualifications Wales takes a stronger position with regard to apprenticeships, in terms of being the gatekeeper for apprenticeships within Wales".⁴⁸

155. Dywedodd yr NTfW wrth y Pwyllgor hefyd: "as apprenticeships are made up of qualifications, generally, there needs to be a single body that is responsible for the whole apprenticeship offer, in terms of making sure that the framework is correct, in terms of the qualifications that go into the apprenticeship framework".⁴⁹

⁴⁶ [Y Memorandwm Esboniadol](#) , Atodiad C

⁴⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, [Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu: QW16](#) a [Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru: QW24](#)

⁴⁸ Tystiolaeth lafar, 28 Ionawr 2015. [Cofnod y Trafodion](#)

⁴⁹ Ibid

156. Er hynny, mae yna ymgynghoriad ar fframweithiau prentisiaethau a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru ar 22 Ionawr 2015, ac sy'n agored tan 24 Ebrill 2015. Mae'r meysydd yr edrychir arnyn nhw yn yr ymgynghoriad hwnnw'n cynnwys a ddylai Cymwysterau Cymru fod yn chwarae mwy o rôl weithredol neu beidio wrth ddod naill ai'n borthor a/neu'n awdurdod dyroddi.

157. Er bod yr NTfW yn gryf o blaid gweld Cymwysterau Cymru fel yr unig gorff sy'n gofalu am brentisiaethau yng Nghymru, maen nhw hefyd yn cydnabod mai mater i Weinidogion Cymru yw penderfynu pwy sy'n awdurdod dyroddi.

158. Mae'r Memorandwm Esboniadol (Atodiad C) yn esbonio nad yw'r Bil yn darparu i Gymwysterau Cymru ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros reoleiddio prentisiaethau na sicrhau eu hansawdd. Pe bai Gweinidogion Cymru yn penderfynu gwneud hynny, fe allen nhw ddynodi Cymwysterau Cymru fel yr awdurdod dyroddi ar gyfer prentisiaethau gan ddefnyddio pwerau sydd eisoes ar gael o dan Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009.⁵⁰

159. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor nad oedd angen i'r Bil ddarparu pwerau newydd o ran prentisiaethau ac y dylai unrhyw newid yn y polisi aros tan ar ôl yr ymgynghoriad cyfredol "Sicrhau bod y model prentisiaethau'n gweddu i anghenion economi Cymru",⁵¹ sydd ar ei hanner. Dywedodd y Gweinidog:

"Well, we're currently going through the review of the apprenticeships system and we'll have to take into account the results of that review that'll come along later in the year.

"We do have existing legislation with the 2009 Act, which allows Welsh Ministers to designate, or would allow Ministers to designate, Qualifications Wales as a Welsh issuing authority for apprenticeships — in other words, issues and publishes the frameworks for apprenticeships. So, that role is compatible with the powers that Qualifications Wales would have, but we also need to take into account what the review...is actually going to tell us."⁵²

160. Ar ôl iddo ymddangos gerbron y Pwyllgor, ysgrifennodd y Gweinidog at y Cadeirydd gan ddweud "it would be premature to commit Qualifications Wales to a specific role in relation to apprenticeships before the outcome of

⁵⁰ [Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009](#)

⁵¹ [Sicrhau bod y model prentisiaethau'n gweddu i anghenion economi Cymru](#)

⁵² Tystiolaeth lafar, 5 Chwefror 2015, [Cofnod y Trafodion](#)

that review is known”.⁵³ Pe penderfynid y dylai Cymwysterau Cymru fynd yn awdurdod dyroddi ar gyfer prentisiaethau, ychwanegodd y Gweinidog: “there is nothing in the proposed Qualifications Wales Bill that would preclude this from taking place”.

Barn y Pwyllgor

161. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai'r Gweinidog roi ystyriaeth lawn i'r rôl y dylai Cymwysterau Cymru ei chwarae o ran prentisiaethau. Er hynny, mae'n glir y dylai hynny gael ei wneud ar ôl yr adolygiad “Sicrhau bod y model prentisiaethau'n gweddu i anghenion economi Cymru”, sydd ar ei hanner.

Argymhelliad: Yn sgil deilliannau'r adolygiad “Sicrhau bod y model prentisiaethau'n gweddu i anghenion economi Cymru”, dylai'r Gweinidog roi ystyriaeth lawn i'r rôl y dylai Cymwysterau Cymru ei chwarae o ran prentisiaethau.

⁵³ [CYPE\(4\)-07-15 - Papur i'w nodi 1](#)

11. Materion ariannol a masnachol

Costau sefydlu Cymwysterau Cymru

162. Does dim o'r dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor yn dadlau mewn gwirionedd nad Opsiwn 3 (yr opsiwn dewisol) yw'r opsiwn gorau ac ni fynegodd yr un tyst wrthwynebiad uniongyrchol i ddyrannu cyllid ychwanegol er mwyn sefydlu Cymwysterau Cymru.

163. Er hynny, mae sawl rhanddeiliad, gan gynnwys Colegau Cymru, wedi pwysleisio mor bwysig yw sicrhau gwerth am arian a "rigorous scrutiny" ar y gyllideb a ddarperir i Gymwysterau Cymru, yn enwedig felly mewn hinsawdd barhaus o gyni.

164. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn y Memorandwm Esboniadol yn dangos yr amcangyfrif o gost ychwanegol y system newydd, sef £15.7 miliwn dros y pum mlynedd nesaf (2015-16 tan 2019-20) o'i gymharu ag opsiwn realistig y status quo. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor⁵⁴ y byddai'n rhaid i'r arian hwn ddod o'r gyllideb Addysg a Sgiliau sydd eisoes yn bod ac nad oedd ganddo adnoddau ychwanegol.

165. Dywedodd papur y Gweinidog i'r Pwyllgor yn ystod gwaith craffu ar y gyllideb ddrafft ym mis Hydref 2014⁵⁵ fod swm cychwynol o £2.3 miliwn wedi'i ddyrannu yn 2015-16 ar gyfer costau sefydlu Cymwysterau Cymru. Cadarnhaodd hyn hefyd mewn ysgriflen i'r Pwyllgor Cyllid.⁵⁶

166. Dywedodd Jim Bennett, Prifathro Coleg Gwent, a ddaeth i'r Pwyllgor gyda Colegau Cymru:

"...that is going to cost money. For me, this issue is not so much that – it's where it comes from. If this means a significant further squeeze on the education budget, then that will be a big issue for us."⁵⁷

167. Gan gyfeirio at ostyngiadau yn narpariaeth ran-amser Coleg Gwent o ganlyniad i doriadau yng nghyllideb 2015-16, ychwanegodd Mr Bennett:

"But if doing this costs 50% of the part-time provision in FE colleges in Wales... then the whole notion, the whole concept, of value for money takes on a different colour."⁵⁸

⁵⁴ Tystiolaeth lafar, 11 Rhagfyr 2014, [Cofnod y Trafodion](#)

⁵⁵ [CYPE\(4\)-25-14 – Papur 5](#)

⁵⁶ [CYPE\(4\)-07-15 – Papur i'w nodi 2](#)

⁵⁷ Tystiolaeth lafar, 22 Ionawr 2015, [Cofnod y Trafodion](#)

168. Fel yr amlinellwyd yn y Memorandwm Esboniadol, mae Cabinet Llywodraeth Cymru wedi cydnabod y costau ychwanegol uchel fel “cost y gellir ei chyfiawnhau er mwyn cael system gymwysterau annibynnol yng Nghymru”.⁵⁹ Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

“We’ve made the commitment to Qualifications Wales. It is, perhaps, some would say, with some justification, the most expensive option, and I would be unembarrassed in defending ourselves going for the very best and most robust model for independent qualifications regulation in Wales, because the reputation of Welsh qualifications needs to be unimpeachable in terms of the future.”⁶⁰

169. Mewn llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid,⁶¹ rhoddodd y Gweinidog ddadansoddiad manylach o gostau TGCh a chostau staff yn sgil sefydlu Cymwysterau Cymru.

Barn y Pwyllgor

170. Mae’r Pwyllgor wedi nodi’r amcangyfrif o gostau rhoi’r Bil ar waith ac ar y cyfan mae’n fodlon, ond mae’n rhannu rhai o’r pryderon a fynegwyd ynghylch sicrhau gwerth am arian, a thoriadau posibl mewn mannau eraill yn y gyllideb Addysg a Sgiliau.

171. Fel rhan o’i waith craffu ar gyllideb Llywodraeth Cymru, bydd y Pwyllgor yn parhau i wirio bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud darpariaeth ar gyfer y costau hyn yn nyraniadau cyllidebau’r dyfodol, gan ofyn am sicrwydd i’r perwyl hwnnw ynghylch effaith cyllido Cymwysterau Cymru ar raglenni a blaenoriaethau eraill yn y portffolio Addysg a Sgiliau.

Darpariaeth i Gymwysterau Cymru ddarparu gwasanaethau masnachol

172. Mae CBAC yn mynegi pryder ynghylch adran 40 sy’n caniatáu i Gymwysterau Cymru ddarparu gwasanaethau ymgynghori a gwasanaethau eraill ar sail fasnachol. Ysgrifennodd CBAC fod hyn “yn dod â photensial arwyddocaol o wrthdaro buddiannau”,⁶² yn enwedig pan fo’r gwasanaethau hyn yn ymwneud â chymwysterau sydd wedyn yn cael eu cyflwyno i’w cymeradwyo gan Gymwysterau Cymru.

⁵⁸ Tystiolaeth lafar, 22 Ionawr 2015, [Cofnod y Trafodion](#)

⁵⁹ [Y Memorandwm Esboniadol](#), paragraff 236

⁶⁰ Tystiolaeth lafar, 5 Chwefror 2015, [Cofnod y Trafodion](#)

⁶¹ [CYPE\(4\)-07-15 – Papur i’w nodi 2](#)

⁶² Tystiolaeth ysgrifenedig, [CBAC: QW01](#)

173. Mae Nodiadau Esboniadol Llywodraeth Cymru ar y Bil yn dweud y gallai Cymwysterau Cymru ddatblygu arbenigedd o ran cymwysterau a allai fod o werth masnachol. Mae adran 40 yn galluogi'r sefydliad i godi ffioedd am wasanaethau o'r fath ac i bennu graddfa'r ffioedd hyn heb gyfeirio at Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn wahanol i unrhyw ffioedd am ei weithgareddau rheoleiddio, sy'n gorfod cael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

174. Dywedodd Prif Weithredwr CBAC, Gareth Pierce, wrth y Pwyllgor ei fod yn credu "bod yna wirioneddol botensial ar gyfer gwrthdaro fan hyn"⁶³ ac yn ei farn ef "y dylai hwn gael ei ddileu. Mae'r potensial o wrthdaro ymhellach lawr y lein yn rhy sylweddol".⁶⁴

175. Roedd yn ymddangos bod corff dyfarnu arall, yr OCR, yn cytuno, gan bwysleisio y byddai angen gofal o ran sut y gallai Cymwysterau Cymru ddefnyddio'r pwerau yn adran 40 i ddarparu gwasanaethau masnachol.

176. Pan gafodd ei holi gan y Pwyllgor, esboniodd y Gweinidog ei bod yn bwysig i Gymwysterau Cymru allu manteisio ar ei arbenigedd ei hun, a gallu defnyddio'r arbenigedd hwnnw y tu allan i'w adeilad ei hun. O ran y gwrthdaro buddiannau posibl, dywedodd y Gweinidog:

"Qualifications Wales will be a public body. As such, it's going to have to set up its own protocols for avoiding any conflict of interest. That's part of its self-management as a public organisation, as a regulatory body. I don't see the need, really, to spell that out in the Bill, because it's already there as part of legislation governing the conduct of public bodies."⁶⁵

Barn y Pwyllgor

177. Fel corff annibynnol, dylai fod gan Gymwysterau Cymru y gallu i ddarparu gwasanaethau masnachol, ac mae'r Pwyllgor yn cytuno o ran egwyddor â'r darpariaethau a nodwyd yn adran 40 o'r Bil.

178. Er hynny, mae'r Pwyllgor yn poeni bod rhaid i Gymwysterau Cymru osod protocolau clir yn eu lle i leddfu unrhyw wrthdaro buddiannau posibl a allai godi yn sgil darparu gwasanaethau o'r fath. Mae'r Pwyllgor yn credu felly fod rhaid i waith gael ei wneud cyn i'r Bil gael ei ddeddfu er mwyn sicrhau bod protocol yn ei le.

⁶³ Tystiolaeth lafar, 14 Ionawr 2015, [Cofnod y Trafodion](#)

⁶⁴ Ibid

⁶⁵ Tystiolaeth lafar, 5 Chwefror 2015, [Cofnod y Trafodion](#)

Argymhelliad: Cyn i'r Bil gael ei ddeddfu, rhaid i'r Gweinidog / Cymwysterau Cymru sicrhau bod protocol clir ar gael i leddfu unrhyw wrthdaro buddiannau posibl a allai godi drwy ddarparu gwasanaethau masnachol o dan adran 40 o'r Bil.

Pŵer Cymwysterau Cymru i godi ffioedd.

179. Rhybuddiodd CBAC ynghylch y rhagolwg y gallai Cymwysterau Cymru godi tâl am geisiadau am gydnabod cyrff dyfarnu a chymeradwyo eu cymwysterau. Mae adran 10(3)(b) yn rhoi pŵer i Gymwysterau Cymru i bennu ffioedd sydd eisoes gan Weinidogion Cymru (ond nad ydyn nhw'n ei ddefnyddio). Er hynny, awgrymodd CBAC y gallai Cymwysterau Cymru fod yn debycach o ddefnyddio'r pŵer na Llywodraeth Cymru pe na bai ei sefyllfa ariannol yn gadael unrhyw ddewis arall iddo.

180. Roedd CBAC a'r OCR yn glir y byddai'n rhaid iddyn nhw basio costau o'r fath ymlaen, pe baen nhw'n arwyddocaol, i ganolfannau arholi a dywedodd Pearson y byddai eu safbwynt nhw'n dibynnu ar dryloywder o safbwynt a fyddai'r ffioedd hyn yn cael eu defnyddio dim ond i adennill costau gweinyddol ynteu'n cael eu defnyddio gan Gymwysterau Cymru i greu incwm. Cadarnhaodd pob un o'r tri chorff dyfarnu nad yw Ofqual yn codi ffioedd fel rhan o'r drefn ar y cyrff dyfarnu.

181. Esboniodd y Gweinidog mai'r cyfan yr oedd adran 10(3)(b) yn ei wneud oedd trosglwyddo pwerau i Gymwysterau Cymru sydd gan Weinidogion Cymru eu hunain yn barod:

“This is simply a carry over, as you say, of powers that I currently have, but no Welsh Minister has actually exercised since devolution came along. It's there to be prudent.... To change the situation would be to actually strip Qualifications Wales of the power I currently have. The prudence comes in, I suppose, in terms of future-proofing that ability for Qualifications Wales, given that we're in a very uncertain world and that financial considerations might change in the world of awarding bodies in ways in which we can't predict.”⁶⁶

182. Ychwanegodd y Gweinidog fod pwerau i gapio'r ffioedd y byddai Cymwysterau Cymru yn eu codi ar gyrff dyfarnu yn “ddull diogelu” pwysig pe bai angen amdanyn nhw yn y dyfodol.

⁶⁶ Tystiolaeth lafar, 5 Chwefror 2015, [Cofnod y Trafodion](#)

Barn y Pwyllgor

183. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod y pwerau yn y Bil sy'n galluogi Cymwysterau Cymru i godi ffioedd yn barhad o bwerau sydd eisoes gan Weinidogion Cymru. Gan fod y pŵer yn bodoli ar hyn o bryd i Weinidogion Cymru, mae'r Pwyllgor yn fodlon y dylai'r un pwerau gael eu rhoi i Gymwysterau Cymru.

184. Er hynny, gan nad yw'r pŵer wedi'i ddefnyddio gan Weinidogion Cymru erioed, does dim modd rhoi darlun clir o'r effaith ar gyrrff dyfarnu, ac eraill, pe bai Cymwysterau Cymru'n penderfynu codi ffioedd. Pe bai ffioedd yn cael eu codi, mae'r Pwyllgor yn credu y dylai fod yn ofynnol i Gymwysterau Cymru wneud asesiad o effaith codi ffioedd, a ddylai gael ei gynnwys yn ei adroddiad blynyddol.

Argymhelliad: Pe bai Cymwysterau Cymru'n defnyddio'i bwerau i godi ffioedd, dylai fod yn ofynnol iddo gynnal asesiad o effaith codi ffioedd, a ddylai gael ei gynnwys yn ei adroddiad blynyddol.

12. Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth

185. Dim ond pedair o ddarpariaethau sydd yn y Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth. O ran y darpariaethau yn adrannau 21(1) a 33(3) o'r Bil, mae'r Gweinidog wedi cynnig defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol i wneud y rheoliadau perthnasol.

186. Mae adran 54(1) o'r Bil yn galluogi'r Gweinidog i wneud rheoliadau sy'n ymwneud â darpariaethau canlyniadol a throsiannol. Mae'r Gweinidog yn cadarnhau mai'r weithdrefn gadarnhaol a ddefnyddid pan fyddai'r darpariaethau hyn yn effeithio ar ddeddfwriaeth sylfaenol. Lle na fyddai'r darpariaethau hyn yn effeithio ar ddeddfwriaeth sylfaenol a bod y darpariaethau'n gymharol fân a thechnegol, mae'r Gweinidog hefyd yn cadarnhau mai'r weithdrefn negyddol a fyddai'n cael ei defnyddio.

187. Mae adran 55 o'r Bil yn galluogi'r Gweinidog i gyflwyno Gorchmynion Cychwyn ar adeg briodol. Gan mai'r cyfan y mae Gorchmynion Cychwyn yn ei wneud yw "allow the policy in the Bill to be given effect", mae'r Gweinidog yn cadarnhau yn y Memorandwm Esboniadol na fydd unrhyw weithdrefn Gynulliad yn gymwys wrth i'r rhain gael eu gwneud.

Barn y Pwyllgor

188. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ymagwedd yn y Bil ynglŷn â rheoliadau o dan adrannau 21(1), 33(3) a 54(1), gan ei bod yn caniatáu lefel briodol o waith craffu. Serch hynny, er bod y Pwyllgor yn derbyn nad yw Gorchmynion Cychwyn yn newid polisi, mae'n credu y dylai'r Gorchmynion y darperir ar eu cyfer yn adran 55 o'r Bil ddod o dan weithdrefn negyddol y Cynulliad.

Argymhelliad: Dylai'r Gweinidog sicrhau bod gweithdrefn negyddol y Cynulliad yn cael ei defnyddio ar gyfer Gorchmynion Cychwyn y darperir ar eu cyfer yn adran 55 o'r Bil.

Atodiad A – Rhestr dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau canlynol dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gall y dystiolaeth ysgrifenedig gael ei gweld yn llawn yn:

www.senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?ID=161

Sefydliad	Cyfeirnod
Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru (WJEC)	QW 01
Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT)	QW 02
Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL)	QW 03
Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr (ATL Cymru)	QW 04
Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig (Cynghorydd yng Nghymru)	QW 05
Estyn	QW 06
Ffederasiwn y Busnesau Bach	QW 07
Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (NUS Cymru)	QW 08
Cyngor Gofal Cymru	QW 09
Cyngor Dyfarniadau mewn Gofal, Iechyd ac Addysg Prifysgolion Cymru	QW 10
ColegauCymru	QW 11
Cyngor y Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu	QW 12
Gwasanaethau Addysg Conwy	QW 13
NUT Cymru	QW 14
Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu (FAB)	QW 15
Corff Dyfarnu Highfield am Gydydffurfio (HABC)	QW 16
Edexcel (Pearson)	QW 17
Arholiadau RSA Rhydychen a Chaergrawnt (OCR)	QW 18
Y Sefydliad Rheolaeth Siartredig (CMI)	QW 19
Agored Cymru	QW 20
Coleg y Cymoedd	QW 21
Cyngor Caerdydd	QW 22
Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTfW)	QW 23
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)	QW 24
Ofqual	QW 25
	QW 26

Atodiad B - Tystion

Rhoddodd y tystion canlynol dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau isod. Mae trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar i'w gweld yn llawn yn: www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?Ild=1305

11 Rhagfyr

Huw Lewis Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Swyddogion i Lywodraeth Cymru

14 Ionawr

Y Dr Chris Howard Cyfarwyddwr Dros Dro, Cymdeithas Genedlaethol y
Prifathrawon yng Nghymru
Robin Hughes Ysgrifennydd, Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a
Cholegau Cymru
Gareth Pierce Prif Weithredwr, CBAC

22 Ionawr

Greg Walker Prif Weithredwr, ColegauCymru
Jim Bennett Prifathro, Coleg Gwent
Yr Athro John Cadeirydd Grŵp Cynghori Dysgu ac Addysgu Prifysgolion
Grattan Cymru, a Dirprwy Is-Ganghellor, Prifysgol Aberystwyth
Amanda Wilkinson Cyfarwyddwr, Prifysgolion Cymru
Justin Edwards Prif Weithredwr, Cyngor y Cwricwlwm, Arholiadau ac
Asesu
Anne-Marie Duffy Cyfarwyddwr Cymwysterau, Cyngor y Cwricwlwm,
Arholiadau ac Asesu
Paul McGlade Rheolwr Cenedlaethol Cymru ac Iwerddon, RSA
Rhydychen a Chaergrawnt
Derek Richardson Cyfarwyddwr, Datblygu Cymwysterau ac Asesu i Pearson
Qualification Services (Edexcel)

28 Ionawr

Jeff Protheroe Rheolwr Gweithrediadau, Ffederasiwn Hyfforddiant
Cenedlaethol Cymru
Stephen Wright Prif Weithredwr, Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu

5 Chwefror

Huw Lewis Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Swyddogion Llywodraeth Cymru